



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025

Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun economaidd a chyllidol ar gyfer y Gyllideb ddrafft 2026-27.



Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025

Rhagair

Dyma ail Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'n dilyn y rhifyn cyntaf a gyhoeddwyd yn 2024. Mae'r Adroddiad hwn yn disodli Adroddiadau'r Prif Economegydd, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2017 ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn cael ei ddrafftio gan amrywiaeth o ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru a'i nod yw cynnig cipolwg ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar dirwedd economaidd Cymru ac yn ei siapio. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y tueddiadau diweddaraf o ran allbwn economaidd, cynhyrchiant, safonau byw, chwyddiant, y farchnad lafur, cyflogau, masnach a'r rhagolygon cyllidol. Ceir dadansoddiad hefyd ar ddau fater o bwysigrwydd cynyddol, y newid yn yr hinsawdd a deallusrwydd artifisial.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar gynnwys neu fformat yr adroddiad.

Dr Thomas Nicholls

Prif Economegydd

Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Rhagair.....	1
Cynnwys.....	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
Cyflwyniad.....	6
Cynnyrch Economaidd	7
Cynhyrchiant	16
Deallusrwydd Artiffisial	21
Safonau Byw	25
Enillion.....	37
Chwyddiant	43
Prisiau Tai.....	47
Newid yn yr Hinsawdd.....	52
Y Farchnad Lafur.....	56
Masnach Ryngwladol	65
Datblygiadau mewn data economaidd	70
Meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a dadansoddi yn y dyfodol.....	72
Rhagolygon Cyllidol.....	74

Crynodeb Gweithredol

Beth yw'r adroddiad hwn?

- Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru i egluro sut mae economi Cymru yn perfformio, sut mae safonau byw pobl yn newid, a beth allai ddigwydd yn y dyfodol.
- Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa economaidd adeg Cyllideb Ddrafft 2026-27.
- Mae'n defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael (ym mis 10 Medi 2025) ac yn cymharu Cymru â gweddill y DU.

Cyd-destun Economi Cymru

- Mae cyswllt agos rhwng economi Cymru â gweddill y DU. Mae llawer o'r nwyddau a gynhyrchir yng Nghymru'n cael eu gwerthu yn y DU, ac mae llawer o'r nwyddau a brynir yn dod o rannau eraill o'r DU.
- Mae tueddiadau economaidd yn y DU, fel twf, chwyddiant a chyflogaeth, yn cael effaith fawr ar Gymru.

Twf Economaidd ac Allbwn

- Mae economi'r DU wedi tyfu'n araf ers y pandemig, gyda chyfraddau twf yn is nag mewn degawdau blaenorol.
- Mae allbwn economaidd y pen yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, ond yn debyg i rai rhanbarthau yng ngogledd Lloegr.
- Mae'r sector cynhyrchu (fel gweithgynhyrchu) yn bwysicach yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o'r DU, ac mae'r sector gwasanaethau (fel cyllid a TG) yn llai.

Cynhyrchiant a Chyflogau

- Mae cynhyrchiant (yr hyn rydym yn ei gynhyrchu am bob awr a weithir) yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU, ond mae wedi tyfu'n gyflymach yma nag mewn llawer o ranbarthau eraill ers 2009.
- Mae cyflogau yng Nghymru yn tua 93% o gyfartaledd y DU, ond maent wedi tyfu ar gyflymder tebyg i weddill y DU dros y tymor hir.
- Mae twf real mewn cyflogau (ar ôl chwyddiant) wedi bod yn wan ers 2008, ond bu rhywfaint o welliant yn ddiweddar, er ein bod ond wedi dychwelyd i'r un lefel â thua 17 mlynedd yn ôl.

Deallusrwydd Artiffisial

- Mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cael ei gydnabod fwyfwy fel sbardun allweddol posibl ar gyfer newid economaidd; gan ddod â chyfleoedd i wella cynhyrchiant, gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, a mynd i'r

afael â heriau byd-eang. Fodd bynnag, wrth iddo gael ei fabwysiadu, mae hefyd yn codi ystyriaethau pwysig ynghylch moeseg, ymddiriedaeth, preifatrwydd ac atebolrwydd.

- Gallai deallusrwydd artiffisial weddnewid marchnadoedd llafur drwy awtomeiddio tasgau arferol a chynyddu'r galw am rolau sgiliau uchel. Er y gallai gefnogi arloesi a dyfodiad diwydiannau newydd, mae ei effaith gyffredinol ar gynhyrchiant, twf economaidd a chyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn ansicr.
- Mae data arolygon diweddar yn awgrymu bod tua hanner busnesau Cymru'n mabwysiadu technolegau deallusrwydd artiffisial. Rhai o'r rhwystrau rhag mabwysiadu yw arbenigedd cyfyngedig, cost ac anhawster yn nodi achosion defnydd.

Safonau Byw a Thlodi

- Mae incwm aelwydydd yng Nghymru'n is na chyfartaledd y DU, ond nid yw'r bwlch wedi ymestyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae data gwariant (a chyfoeth) yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw'r bwlch mewn safonau byw rhwng Cymru a gweddill y DU mor isel â'r rhai a ddangosir drwy rai mesurau allbwn ac incwm economaidd.
- Mae tua 22% o bobl Cymru'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), sy'n debyg i Lloegr, ond yn uwch na'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Tai a Chyfoeth

- Mae mwy o bobl yng Nghymru'n berchen yn llwyr ar eu cartrefi o'i gymharu â Lloegr. Mae prisiau tai yng Nghymru wedi parhau i godi, gyda gwahaniaethau mawr mewn prisiau tai ledled Cymru.

Chwyddiant a Chostau Byw

- Cyrhaeddodd chwyddiant uchafbwynt o dros 11% yn 2022 ond mae bellach wedi gostwng yn ôl i tua 4%. Disgwylir y bydd yn dychwelyd i darged Banc Lloegr o 2% erbyn 2027-28.
- Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar incwm real, ond mae twf diweddar mewn cyflogau wedi helpu i wrthbwyso rhywfaint ar yr effaith.

Swyddi a'r Farchnad Lafur

- Mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi gwella ers datganoli, gan nesáu at gyfradd y DU, ond mae'n dal ychydig yn is na chyfartaledd y DU.
- Mae'r gyfradd diweithdra yn debyg i gyfartaledd y DU, ond mae cyfran gymharol fwy o bobl yng Nghymru nad ydynt yn gweithio oherwydd salwch tymor hir.

- Mae'r rhan fwyaf o golledion swyddi yn y DU wedi bod yn y sector preifat, yn enwedig mewn diwydiannau sy'n talu llai.

Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Economi

- Disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd leihau twf economaidd yn y DU ac yng Nghymru yn y tymor hir, yn bennaf oherwydd costau uwch a chynhyrchiant is.
- Disgwylir gostyngiadau mawr mewn allyriadau yng Nghymru o gyflenwi ynni a thrafnidiaeth yn ystod y cyfnod 2026 i 2030.
- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw i gyflawni'r newid, yn bennaf o ffynonellau preifat, ond gallai arwain at arbedion gweithredu a manteision economaidd net a gwelliannau iechyd yn y dyfodol.

Masnach a Brexit

- Mae Cymru'n allforio mwy o nwyddau (fel cyfran o'i heconomi) nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, gyda'r rhan fwyaf o allforion yn mynd i'r UE.
- Bu gostyngiad diweddar yng ngwerth allforion Cymru, yn enwedig o ran cynnyrch petrolewm.
- Er gwaethaf y gwahanol gytundebau masnach newydd, mae masnach â'r UE yn dal yn farchnad bwysig i fusnesau Cymru.

Cyllid Cyhoeddus a Chyllideb Cymru

- Mae gwariant a dyledion Llywodraeth y DU yn uchel o'i gymharu â safonau hanesyddol, gan effeithio ar y cyllid sydd ar gael i Gymru, gan fod grant bloc Llywodraeth y DU yn dal i ddominyddu cyllideb Llywodraeth Cymru.
- Disgwylir i gyllideb Llywodraeth Cymru dyfu ychydig mewn termau real dros y blyneddoddd nesaf, ond mae pwysau gan boblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus yn parhau.
- Mae trethi datganoledig (fel treth incwm Cymru) yn gwneud cyfraniad cynyddol at gyllideb Cymru.

Edrych i'r Dyfodol

- Mae Cymru'n wynebu heriau yn sgil twf economaidd araf, costau byw cynyddol, a newid demograffig.
- Mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar wella cynhyrchiant, cefnogi swyddi, mynd i'r afael â thlodi, a pharatoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Cyflwyniad

Dyma'r ail rifyn o Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru. Mae'r gyfres hon yn adeiladu ar y gyfres o adroddiadau'r Prif Economegydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â phob Cyllideb Ddrafft ers 2017, ac mae'n barhad ohonynt. Mae'r adroddiad yn ddatblygiad ar yr adroddiadau hynny, ac yn darparu'r cyd-destun economaidd ac ariannol ar yr economi yng Nghymru a'r DU ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27.

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar Gymru, mae rhywfaint o'r cynnwys yn ymwneud â'r DU er mwyn gosod cyd-destun ehangach ac adlewyrchu argaeledd data penodol. Yn gyffredinol, mae tueddiadau data'r DU yn berthnasol i Gymru oherwydd integreiddiad dwfn Cymru ag economi'r DU. Canfu data diweddaraf o Arolwg Masnach Cymru bod tua thraean o'r nwyddau a'r gwasanaethau a werthir gan fusnesau Cymru wedi mynd i weddill y DU, o'i gymharu â 17% a aeth i gyrchfannau rhyngwladol. Daeth 42% o holl bryniant busnesau o weddill y DU, gan danlinellu pwysigrwydd masnach o fewn y DU i fusnesau Cymru.

Oherwydd y lefel uchel hon o gyd-ddibyniaeth economaidd, mae llawer o ddatblygiadau ledled y DU yn debygol o ddylanwadu ar amodau economaidd Cymru, yn enwedig yn y tymor byr i ganolog. Er bod polisi cyllidol, macroeconomaidd ac ariannol yn faterion a gedwir yn ôl ac felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i raddau helaeth, mae ysgogiadau polisi pwysig fel y rheini ym meysydd trafnidiaeth, iechyd, addysg a chynllunio, yn dal i allu siapio canlyniadau economaidd yng Nghymru yn y tymor hirach.

Daw'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o amryw o ffynonellau swyddogol a dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ar 10 Medi 2025. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen diwygio llawer o ystadegau economaidd a chyllidol wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael neu wrth i fethodolegau gael eu mireinio. Dylai defnyddwyr yr adroddiad hwn fod yn ymwybodol y gall ffigurau newid dros amser, a gallai'r data a gyflwynir yma gael eu dadansoddi mewn cyhoeddiadau diweddarach. Pan fo'n berthnasol, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddiwygiadau neu ansicrwydd y gwyddom amdanynt.

Cynnyrch Economaidd

Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth allbwn economaidd y DU yn 2024, fel y'i mesurir gan Gynnyrch Domestig Gros (GDP), oedd £2.85 triliwn. Agwedd allweddol ddiweddar o gynnyrch economaidd y DU yw ei berfformiad o'i gymharu â pherfformiad yn y gorffennol.


Rhwng datganoli yn 1999 a 2008, tyfodd cynnyrch domestig gros y DU, ar gyfartaledd, oddeutu 2.5% y flwyddyn. Effeithiodd argyfwng ariannol byd-eang (GFC) 2008-09 ar economi'r byd gan arwain at ostyngiad sydyn yng nghynnyrch economaidd y DU. Rhwng 2010 a 2019, tyfodd yr economi ond ar gyfradd dwf arafach nag yn y ddeng mlynedd flaenorol, tua 2% y flwyddyn. Fodd bynnag, ers 2020, mae economi'r DU wedi tyfu ar gyfradd is fyth, sef tua 1% y flwyddyn, gweler **Ffigur 1**.¹

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi atal cyhoeddi data cynnyrch domestig gros chwarterol ar gyfer Cymru oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data.² Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae economïau Cymru a'r DU yn hynod integredig, felly mae'r dadansoddiad canlynol o allbwn sy'n defnyddio data'r DU yn berthnasol iawn i berfformiad yr economi yng Nghymru.

¹ Mae'r holl ddata'n gywir ar 10 Medi 2025. Mae'n bosibl y bydd y data, hyd yn oed ar gyfer blynyddoedd cynharach, yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol. Rhyddhaodd yr ONS [Lyfr Glas 2025](#) ar 19 Awst 2025, sy'n cynnwys effeithiau blynyddol a chwarterol ar Gyfrifon Cenedlaethol y DU 2025 yn sgil gwelliannau methodolegol diweddar, ac arolygon newydd a gwybodaeth weinyddol. Mae hyn yn diwygio'r ffordd y caiff allbwn economaidd ei fesur. Mae hyn yn arwain at rai man newidiadau i amcangyfrifon swyddogol y DU o allbwn economaidd (cynnyrch domestig gros) rhwng 1997 a diwedd 2023. Fodd bynnag, dim ond yn yr amcangyfrifon swyddogol o'r datganiadau chwarterol o gyfrifon cenedlaethol o 30 Medi 2025 ymlaen yr ymgorfforir yr amcangyfrifon hyn.

² Data diweddaraf yr ONS gyda chynnyrch domestig gros chwarterol Cymru ym mis Mai 2023 ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2022; ONS (2023) [GDP, rhanbarthau a gwledydd y DU](#)

Ffigur 1: Mynegai GDP Real y DU (1999 Ch1 = 100)



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae perfformiad economi'r DU wedi bod ychydig yn is na'r rhagolygon a nodir yn rhagolwg Hydref 2024 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), a oedd yn sail i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gweler Ffigur 2.


Yn ei ragolwg diweddaraf, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Datganiad y Gwanwyn 2025 ym mis Mawrth, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl twf o 1% mewn cynnyrch domestig gros yn 2025, hanner y gyfradd a ragwelir yn rhagolwg mis Hydref 2024. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn tybio y caiff rhywfaint o'r twf a gollir yn y tymor byr ei wrthbwysu'n rhannol gan dwf uwch yn y tymor canolig. Mae hyn yn golygu y rhagwelir mai dim ond tua hanner pwynt canran yn is na rhagolwg mis Hydref fydd twf real cronus mewn cynnyrch domestig gros dros y cyfnod rhwng 2023 a 2029.

Nid yw newidiadau yn y prif gynnyrch domestig gros yn ystyried newidiadau yn y boblogaeth, sy'n golygu ei fod yn fesur cyfyngedig o gynnydd economaidd. I'r gwrthwyneb, mae cynnyrch domestig gros y pen yn cyfrif newid yn y boblogaeth ac yn ddangosydd mwy ystyrlon o safonau byw.

Yn yr un modd â chynnyrch domestig gros, mae cynnyrch domestig gros y pen wedi tanberfformio o'i gymharu â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Hydref 2024, adeg Cyllideb Ddrafft ddiwethaf Llywodraeth Cymru. Dim ond 0.5% yn uwch oedd lefel cynnyrch domestig gros y pen yn y DU yn ail chwarter 2025 nag ym mhedwerydd chwarter 2021 (gweler Ffigur 2), tra bod cyfanswm cynnyrch domestig gros wedi cynyddu 3.9%. Mae modd egluro'r gwahaniaeth hwn i raddau helaeth gan dwf y boblogaeth sy'n fwy na thwf economaidd yn ystod y cyfnod hwn. Fel cynnyrch

domestig gros, mae cyfradd twf cynnyrch domestig gros y pen yn dal yn is o lawer na'r duedd hirdymor, sef rhwng 2% a 2.5% cyn yr argyfwng ariannol.

Ffigur 2: Mynegai cynnyrch domestig gros cyfanredol a chynnyrch domestig gros y pen y DU (chwarter 4, 2021 = 100)



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Llesiant a GDP

Mae cynnyrch domestig gros yn fesur pwysig o gynnydd economaidd ond, fel y mae economegwyr yn cydnabod yn eang, mae'n anghyflawn ac nid yw'n cynnwys llesiant. Er enghraifft, nid yw cynnyrch domestig gros yn adlewyrchu'r enillion na'r difrod a achosir i gymdeithas a'r amgylchedd gan dwf mewn cynnyrch domestig gros. Nid yw'n cynnwys sut mae twf economaidd yn cael ei rannu ymysg cymdeithas ac mae'n anwybyddu gweithgarwch y tu allan i'r ffin gynhyrchu ond sy'n cyfrannu at lesiant, yn enwedig cynhyrchiant aelwydydd.³


Gellir defnyddio dull dangosydd i asesu llesiant ar draws sawl dimensiwn neu nod. Defnyddir dull o'r fath ar gyfer [Adroddiad Llesiant Cymru](#). Edrychwyd mwy ar lesiant yn [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#).

Mae **Ffigur 3** yn dangos sut roedd gan holl wledydd y G7 dwf blynyddol is y pen ar gyfartaledd yn y cyfnod rhwng 2008 a 2024 nag yn y cyfnod rhwng dechrau datganoli a'r Argyfwng Ariannol Byd-eang (1999 i 2007). Yr Unol Daleithiau brofodd y gostyngiad lleiaf, o 1.8% i 1.5%, a'r DU welodd y gostyngiad mwyaf, o 2.4% i 0.5%. Gostyngodd cyfartaledd yr OECD o 2.1% i 1.2%.

³ I gael rhagor o fanylion, gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Measuring progress, well-being and beyond GDP in the UK](#)

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cyfradd y twf yn effeithio ar ba mor gyflym mae safonau byw'n gwella. Er enghraifft, byddai cyfradd twf flynyddol gyfartalog o 2.4% yn dyblu cynnyrch domestig gros y pen mewn tua 30 mlynedd. Ar gyfradd o 0.5%, byddai'n cymryd dros 140 o flynyddoedd i gyflawni'r un canlyniad.

Ffigur 3: Newid canrannol cyfartalog mewn cynnyrch domestig gros real blynyddol y pen yn ôl gwlad, 1999-2024




Ffynhonnell: OECD, NAAG

Cynnyrch economaidd Cymru

Yn 2023, y flwyddyn ddiweddaraf o ddata a oedd ar gael, y cynnyrch economaidd yng Nghymru, fel y'i mesurir gan gynnyrch domestig gros, oedd £92.8bn. Y pen, roedd yn £29,316, sy'n cyfateb i 74.4% (neu 25.6% yn is) o gyfartaledd y DU (ac eithrio'r gyfradd extra-regio). O blith Gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, dim ond Gogledd Ddwyrain Lloegr (7.5% o'r DU) oedd â chynnyrch domestig gros is y pen na Chymru, gweler **Ffigur 4**. Mae cynnyrch economaidd uchel y pen Llundain yn gwneud iddi sefyll allan o'i chymharu â holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Pe baech yn hepgor Llundain, byddai cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru a ffigurau pob rhanbarth arall yn llawer agosach at gyfartaledd y DU. Mae Llundain, ac i ryw raddau de-ddwyrain Lloegr yn ehangach, yn gallu elwa o effeithiau cydgrynhoi.⁴ Mae Llundain hefyd yn elwa o fewngymudo, sy'n ychwanegu at ei hallbwn economaidd ond nid ei phoblogaeth (breswyl). Gweler bod *allgymudo* yn cael effaith negyddol ar gynnyrch domestig gros y pen Cymru. Mae strwythur oedran y boblogaeth hefyd yn cael effaith niweidiol ar Gynnyrch Domestig Gros Cymru, gyda chyfran gymharol uchel o bobl hŷn sy'n llai tebygol o fod mewn gwaith (gweler yr adran ddiweddarach ar strwythur y boblogaeth).

⁴ Dyma pan fo dwysedd uwch o ran poblogaeth a chwmnïau mewn ardal – sy'n cynnig yr amodau i weithwyr a chwmnïau sy'n eu galluogi i gyfnewid gwybodaeth, cronni adnoddau, a sgiliau gwell i weithwyr yn y farchnad lafur leol.

Ffigur 4: GDP y pen, canran y gwahaniaeth o'i gymharu â'r DU (ac eithrio ex regio), 2023



Ffynhonnell: Cynnyrch domestig gros rhanbarthol (GDP), Swyddfa Ystadegau Gwladol

O'i addasu ar gyfer chwyddiant (lefel y DU), gostyngodd cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru 0.8% (gostyngiad o 0.6% yn y DU ac eithrio extra-regio⁵) yn 2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar sail y pen, gostyngodd cynnyrch domestig gros 1.8% yng Nghymru o'i gymharu â gostyngiad o 1.6% ar gyfer y DU (ac eithrio extra-regio).

Cyfansoddiad Sectoraidd Allbwn Economaidd Cymru

Un o nodweddion hirdymor yr economi yng Nghymru, o'i chymharu â gwledydd eraill y DU, fu'r gyfran uwch o gynnyrch economaidd gan y sector cynhyrchu.⁶ Yn 2023, cynhyrchodd y sector cynhyrchu yng Nghymru 21% o'r cynnyrch economaidd, fel y'i mesurir gan Werth Ychwanegol Gros (GVA)⁷ o'i gymharu â 13% o Werth Ychwanegol Gros y DU. Ar yr un pryd, roedd y sector gwasanaethau yn cyfrif am 73% o allbwn economaidd Cymru o'i gymharu ag 81% ar gyfer y DU.

Mae **Ffigur 5**, yn dangos gwahaniaethau eraill yng nghyfansoddiad gwerth ychwanegol gros Cymru o'i chymharu â gwledydd eraill y DU, yn fwyaf nodedig


⁵ Gweithgarwch economaidd Extra-Regio yw gweithgarwch economaidd na ellir ei gysylltu â rhanbarth penodol, er enghraifft awyr-ofod, dyfroedd tiriogaethol a'r sgafell gyfandirol, llysgenadaethau, is-genadaethau, canolfannau milwrol a dyddodion olew, nwy naturiol, ac ati, mewn dyfroedd rhyngwladol).

⁶ Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu, mwyngloddio a chwarela, cyflenwi ynni, cyflenwi dŵr a rheoli gwastraff. Gweithgynhyrchu yw'r brif elfen yng Nghymru a'r DU

⁷ Mesur o allbwn economaidd yw gwerth ychwanegol gros sy'n ystyried gwerth y mewnbynnau canolradd a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. I gael gwybodaeth am y gwahaniaethau rhwng gwerth ychwanegol gros a chynnyrch domestig gros, gweler [A guide to interpreting monthly gross domestic product - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

cyfran uwch o gynnyrch yn y meysydd canlynol: Gweithgynhyrchu (16% yng Nghymru a 9% yn y DU yn 2023), Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol (9% yng Nghymru a 5% yn y DU yn 2023); a gweithgarwch iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (12% yng Nghymru, tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ond 8% yn y DU yn 2023). I'r gwrthwyneb, mae gan Gymru gyfrannau cymharol is yn benodol yn y meysydd canlynol: Gwybodaeth a chyfathrebu (3% yng Nghymru a 6% yn y DU yn 2023); Gweithgarwch proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (4% yng Nghymru ac 8% yn y DU yn 2023); a Gweithgarwch ariannol ac yswiriant (6% yng Nghymru a 9% yn y DU yn 2023).

Ffigur 5: GDP y pen, canran y gwahaniaeth o'i gymharu â'r DU (ac eithrio ex regio), 2023



Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 1999 a 2023, cynyddodd gwerth allbwn economaidd (gwerth ychwanegol gros) yng Nghymru bron i ddwy flynedd a hanner mewn termau nominal ac o tua

40% mewn termau real.⁸ Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynyddodd gwerth allbwn y sector gwasanaeth 161% mewn termau nominal (tua hanner mewn termau real) tra bod gwerth allbwn y sector cynhyrchu (gan gynnwys gweithgynhyrchu, ynni a chyfleustodau) wedi bron â dyblu mewn termau nominal ac wedi cynyddu tua 10% mewn termau real.

O ganlyniad, cynyddodd cyfran allbwn economaidd Cymru a oedd yn cael ei gyfrif gan wasanaethau o tua 68% yn 1999 i 73% yn 2023 a gostyngodd cyfran y sector cynhyrchu o tua 26% i tua 21% dros yr un cyfnod. Mae cyfran y gwerth ychwanegol gros yn y diwydiant adeiladu wedi aros yn gymharol sefydlog, gan amrywio rhwng 5% a 7% dros yr un cyfnod, gyda chysylltiad yn aml rhwng newidiadau tymor byr â chylchoedd economaidd a phrosiectau mawr. Mae'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota a'r sector mwyngloddio a chwarela wedi cyfrif yn gyson am gyfrannau bach o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros; llai na 2% yr un.

Cynyddodd gwerth allbwn gweithgynhyrchu yng Nghymru ychydig dros 86% mewn termau nominal rhwng 1999 a 2023 (cynnydd o tua 6% mewn termau real). O ganlyniad, gostyngodd cyfran y sector gweithgynhyrchu o allbwn economaidd Cymru o ychydig dros 20% i ychydig dros 15% yn ystod yr un cyfnod.

Mae is-sectorau gwasanaeth fel gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd a gwaith cymdeithasol; gweithgarwch proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgarwch gweinyddol a gwasanaethau cymorth; a gweithgarwch ariannol ac yswiriant, yn cyfrif am gyfran fwy o allbwn economaidd Cymru yn 2023 nag oeddent yn 1999.


Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r duedd bod gwasanaethau'n tyfu'n gyflymach mewn economïau datblygedig oherwydd cynnydd mewn incwm a newidiadau yn newisiadau defnyddwyr.

Perfformiad economaidd cymharol hirdymor

Dros y tymor hirach, mae allbwn economaidd Cymru y pen wedi tyfu 31% mewn termau real rhwng 1998 a 2023, gyda'r Deyrnas Unedig (ac eithrio extra-regio) yn tyfu 37% dros yr un cyfnod. Llundain sydd wedi tyfu fwyaf dros y cyfnod, gyda thwf o 42%. Fodd bynnag, mae dwyrain canolbarth Lloegr (19%), gorllewin canolbarth Lloegr (23%), de-orllewin Lloegr (26%) i gyd wedi tyfu llai na Chymru yn ystod y cyfnod rhwng 1998 a 2023, gyda Chymru tua'r canol ar sail y pen, gweler **Ffigur 6**.

⁸ Mae'r newid yn eithaf tebyg, boed hynny gan ddefnyddio [datchwyddydd cynnyrch domestig gros y DU](#) neu [ddatchwyddydd cynnyrch domestig gros goblygedig Cymru](#)

Ffigur 6: Mynegai GDP y pen 1998 i 2023, (1998=100)



Sylwch: Yr ardal wedi'i thywyllu yw'r ystod o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Nid yw'r siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl cynnyrch domestig gros, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Disgwylir y bydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith andwyol ar yr economi, yn enwedig drwy lai o ddwysedd masnachu a chynhyrchiant dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae'n her i fesur yr effeithiau hynny, gan ei bod yn anodd gwahanu effaith Brexit oddi wrth yr ystod o siociau y mae economïau'r DU a Chymru wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf.

Nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl gweld effaith llawn Brexit yn cael ei gwreiddu am sawl blwyddyn ar ôl i'r berthynas fasnachu newydd â'r UE gael ei rhoi ar waith yn llawn. Mae'n amcangyfrif y bydd effaith gyffredinol ymadael â'r UE yn lleihau maint economi'r DU tua 4%, gyda'r effeithiau llawn yn dod i'r amlwg 15 mlynedd ar ôl i'r cytundeb masnach newydd ddod i rym yn 2021.⁹

⁹ Gweler OBR mis Mawrth 2024 [Economic and fiscal outlook – March 2024](#)

Cynhyrchiant

Pam fod cynhyrchiant yn bwysig?

Cynhyrchiant sy'n mesur sut mae economi'n trosi mewnbwn fel llafur a chyfalaf yn allbynnau. Yn y tymor hir, cynyddu cynhyrchiant yw'r unig ffordd o sicrhau (ac yn bwysicach, cynnal) safonau byw uwch y pen. Mae cynhyrchiant uwch yn gwella llesiant pobl mewn sawl ffordd. Mewn egwyddor, mae cynhyrchiant uwch yn gwneud cwmnïau'n fwy proffidiol a chystadleuol, a ddylai yn ei dro ddarparu'r amodau ariannol i weithwyr ofyn am gyflogau real uwch, ac i gwmnïau eu cynnig. Mae economi sy'n tyfu yn cynhyrchu refeniw treth uwch heb godi cyfraddau trethiant. Mae hyn yn rhoi opsiynau i'r llywodraeth ddefnyddio'r adnoddau y gallant wedyn eu defnyddio i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, seilwaith, a/neu ostwng trethi. Ceir trafodaeth fanylach am bwysigrwydd twf cynhyrchiant a'r tybiaethau a wneir amdano yn yr adran rhagolygon cyllidol.

Gall gwella cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus (er enghraifft, drwy drawsnewid digidol mewn gofal iechyd neu addysg) leihau cost gymharol gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n darparu cyfleoedd i wella ansawdd gwasanaethau a hygyrchedd. Gall twf cynhyrchiant drwy ddulliau cynhyrchu sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon leihau gwastraff ac allyriadau a helpu i ddatgysylltu twf economaidd oddi wrth ddirywiad amgylcheddol. Mae gwella cynhyrchiant yn aml yn golygu treulio llai o amser yn gwneud tasgau ailadroddus, gan ryddhau amser ar gyfer gweithgareddau hamdden, teuluol neu greadigol.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae twf economaidd yng Nghymru a'r DU wedi lleihau ers argyfwng ariannol byd-eang 2007-08, yn enwedig o'i gymharu â'r pedwar degawd blaenorol. Ers yr argyfwng ariannol, mae twf cynhyrchiant wedi arafu, tuedd y cyfeirir ati'n eang fel y 'pos cynhyrchiant'. Mae economegwyr a llunwyr polisïau yn parhau i drafod achosion y diffyg twf hwn.

Mae cyllid cyhoeddus y DU yn sensitif iawn i gynhyrchiant. Byddai hyd yn oed cynnydd bychan ar ragdybiaeth ganolog yr OBR ar dwf cynhyrchiant yn cael effeithiau cymharol fawr ar gyllid cyhoeddus. Mae'r OBR¹⁰ yn amcangyfrif, os yw twf cynhyrchiant yn 1.2% y flwyddyn o'r flwyddyn nesaf ymlaen, yn hytrach na thwf o 1% dros gyfnod y rhagolwg, yna bydd derbyniadau'r llywodraeth £16.3 biliwn yn uwch ar gyfartaledd o 2025-26 a £20.2 biliwn yn uwch yn y flwyddyn olaf. Amcangyfrifir nad yw treth fel cyfran o gynnyrch domestig gros wedi newid rhyw lawer, gan danlinellu sut mae hon yn ffordd gynaliadwy o gynyddu adnoddau'r llywodraeth, wrth gynhyrchu mwy o refeniw heb gynyddu'r dreth fel cyfran o'r economi.

Gyda gwariant hefyd yn gostwng mewn senario o'r fath (yn bennaf oherwydd taliadau llog is ar ddyledion), mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif y


¹⁰ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2025). [Economic and fiscal outlook: Mawrth 2025](#).

byddai twf cynhyrchiant uwch yn newid cyllideb bresennol y DU gan wella o ddiffyg o £58.8 biliwn (2.0 y cant o gynnyrch domestig gros) eleni i warged bach o £0.6 biliwn (0.0 y cant o GDP) yn 2026-27, mewn gwarged flwyddyn yn gynharach na rhagolwg canol mis Mawrth. Mae wedyn yn cyrraedd gwarged o £33.1 biliwn (0.9 y cant o GDP) yn 2029-30, sy'n uwch na rhagolwg canol mis Mawrth, sef gwarged o £9.9 biliwn (0.9 y cant o GDP) yn 2029-30.

Sut mae cynhyrchiant Cymru yn cymharu â gweddill y DU?

Er bod cyfradd twf cynhyrchiant yn bwysig, mae Cymru hefyd yn wynebu'r her bod lefel ei chynhyrchiant yn is na rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU. Dim ots pa fesur o gynhyrchiant llafur y defnyddiwyd chi, mae lefel cynhyrchiant Cymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd y DU, fel y dangosir yn **Ffigur 7**. Fodd bynnag, mae perfformiad eithriadol o uchel Llundain o ran cynhyrchiant wedi ystumio cyfartaledd y DU.¹¹ Dim ond dau o ranbarthau'r DU (Llundain a De-ddwyrain Lloegr) sydd â chynhyrchiant cyfartalog sy'n uwch na chyfartaledd y DU.

Ffigur 7: Mesurau cynhyrchiant sy'n berthnasol i wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr (2023)



Ffynhonnell: Cynhyrchiant Llafur Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r adran hon yn cynnwys data sy'n ymwneud â'r dangosydd cenedlaethol canlynol: **(09) Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd, (mewn perthynas â chyfartaledd y DU)**. Mae rhagor o wybodaeth am y dangosyddion,

¹¹ Mae pob rhanbarth, ond yn enwedig Llundain, yn cuddio amrywiadau sylweddol mewn perfformiad cynhyrchiant yn eu rhanbarth.

ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru 2025](#).

Un feirniadaeth gyffredin o economi'r DU yw'r crynodiad o wasanaethau ariannol yn Llundain sy'n codi ffigurau cynhyrchiant cenedlaethol yn anghymesur, gan efallai guddio tanberfformiad cymharol y rhan fwyaf o'r rhanbarthau eraill, gan gynnwys Cymru. Fodd bynnag, mae sawl astudiaeth a dadansoddiad wedi dod i'r casgliad bod gwasgariad cynhyrchiant y DU, sy'n cynnwys y cynhyrchiant cymharol is yng Nghymru, yn deillio mwy o ffactorau o fewn diwydiannau ac nid dim ond oherwydd bod gan ranbarthau strwythurau diwydiannol gwahanol.¹²

Mae gwahaniaethau mewn cynhyrchiant rhwng rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU yn arbennig o amlwg yn y sectorau gwasanaeth, ac yn enwedig rhwng Llundain a phob ardal arall. Felly, ni ellir esbonio gwahaniaethau mewn cynhyrchiant yn llwyr gan y ffaith fod gan Llundain a De-ddwyrain Lloegr economi sy'n seiliedig yn bennaf ar wasanaethu, a bo gweithgynhyrchu'n fwy amlwg mewn mannau eraill. Yng Nghymru, er enghraifft, mae lefelau cynhyrchiant gweithgynhyrchu yn uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU.¹³

Un cafeat pwysig i'r canfyddiadau hyn yw, wrth edrych ar ardaloedd mwy lleol na gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr (ITL1) – ac yn enwedig ar gyfer ardaloedd â phoblogaeth fwy gwasgaredig – gall diwydiant egluro rhai gwahaniaethau cynhyrchiant. Er enghraifft, mae gan rai ardaloedd gyfran gymharol uchel o gyflogaeth mewn diwydiannau â chynhyrchiant cymharol isel, sy'n tueddu i gynnwys sectorau fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, a llety a gwasanaethau bwyd.¹⁴

Roedd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024 yn edrych ar ffyrdd o wella perfformiad cynhyrchiant yng Nghymru.¹⁵

Mae lefelau cynhyrchiant Cymru wedi bod yn gymharol isel drwy lawer o hanes diweddar Cymru. Mae **Ffigur 8** yn dangos lefelau cynhyrchiant (allbwn fesul awr) o'i gymharu â chyfartaledd y DU ar draws gwledydd y DU dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn 2023, roedd allbwn Cymru fesul awr a weithiwyd yn 84.9% o gyfartaledd y DU.

Ers yr argyfwng ariannol byd-eang, bu twf cynhyrchiant cryfach yng Nghymru na'r DU drwyddi draw. Rhwng 2009 a 2023, tyfodd cynhyrchiant Cymru (a fesurir fel gwerth ychwanegol gros am bob awr a weithir) 14.1%, o'i gymharu â 10.5% ar gyfer

¹² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). [Understanding spatial labour productivity in the UK](#); R Harris & J Moffat (2021). [The geographical dimension of productivity in Great Britain, 2011–18: the sources of the London productivity advantage](#); ac, A Stansbury ac eraill (2023). [Tackling the UK's regional economic inequality: Binding constraints and avenues for policy intervention](#)


¹³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). [Region by industry labour productivity](#)

¹⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). [Understanding spatial labour productivity in the UK](#)

¹⁵ Gweler tudalennau 16-18 [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#)

y DU. Dim ond yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr (16.4%) a Gogledd Iwerddon (15.9%) y cofnodwyd twf uwch ymysg gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr

Ffigur 8: Mynegai cynnyrch fesul awr a weithiwyd (GVA), gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr (y DU = 100)



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Cynhyrchiant Llafur Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 2019 a 2023, gwelodd Cymru dwf mewn cynhyrchiant, ond ar gyfradd arafach na'r DU drwyddi draw. Fel y dangosir yn Ffigur 8, mae hyn wedi golygu bod mynegai cynhyrchiant Cymru yn gorffen y cyfnod ar lefel is na'i lefel yn 2019 o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Iwerddon welodd y twf cryfaf mewn cynhyrchiant dros y cyfnod hwnnw, ac yn Llundain a Gogledd Canolbarth Lloegr oedd y twf isaf.


Mae Cymru'n sefyll allan fel yr unig ranbarth neu wlad yn y DU lle gostyngodd allbwn (gwerth ychwanegol gros) dros y cyfnod, sy'n cyd-fynd â **Ffigur 6** yn gynharach. Amlygwyd y duedd hon yn WEF 2024¹⁶, gyda materion a nodwyd yn cynnwys dibyniaeth gymharol Cymru ar y sector cynhyrchu. Efallai fod Brexit hefyd wedi cael effaith negyddol fwy amlwg yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Mae cynhyrchiant Cymru wedi cynyddu dros y cyfnod rhwng 2019 a 2023, ond mae hynny oherwydd gostyngiad cymesur uwch yn yr oriau a weithir (a nodir fel rhywbeth cadarnhaol i dwf **Ffigur 9**). Efallai fod cysylltiad rhwng y materion hyn, gan fod llai o oriau'n cael eu gweithio a bod y gwaith a gollwyd yn gymharol lai cynhyrchiol, gan gynyddu cynhyrchiant cyffredinol. Fodd bynnag, efallai nad oes cysylltiad rhyngddynt

¹⁶ Gweler [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#)

chwaith. Er enghraifft, efallai fod problemau wrth fesur y farchnad lafur¹⁷ dros y cyfnod hwn wedi golygu bod yr oriau a weithiwyd wedi'u cofnodi ar gam fel rhai sydd wedi gostwng. Os felly, byddai'r newidynnau hyn yn symud o ran eu hunain. Gwelodd rhanbarthau eraill yn Lloegr a gwledydd y DU hefyd ostyngiad yn yr oriau a weithiwyd rhwng 2019 a 2023, gan gynnwys De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Lloegr, Gogledd Iwerddon a Gogledd-orllewin Lloegr.

Ffigur 9: Cyfraddau twf canrannol blyneddol cyfartalog cronus ar gyfer yr oriau a weithiwyd, cynhyrchiant llafur ac allbwn yng ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 2019 a 2023



Sylwch efallai na fydd y cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (Regional Labour Productivity)

¹⁷ Gweler [Labour Force Survey quality update - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Deallusrwydd Artiffisial

Nodir yn eang mai'r cynnydd yn y technolegau deallusrwydd artiffisial (AI) sy'n cael eu creu a'u mabwysiadu yw un o brif ysgogwyr posibl newid economaidd a chymdeithasol dros y degawdau nesaf. Nodwyd ei bod yn bosibl i ddeallusrwydd artiffisial gynhyrchu enillion cynhyrchiant, gwella llesiant, a helpu i fynd i'r afael â heriau byd-eang, fel y newid yn yr hinsawdd, prinder adnoddau ac argyfyngau iechyd. Mae defnyddio deallusrwydd artiffisial hefyd wedi ysgogi trafodaethau am faterion fel ymddiriedaeth, moeseg, tegwch, preifatrwydd, diogelwch ac atebolrwydd.

Deallusrwydd artiffisial a'i effeithiau posibl ar yr economi

Gallai deallusrwydd artiffisial gael effaith sylweddol ar ganlyniadau economaidd a chymdeithasol. Mae'r amrywiaeth o systemau deallusrwydd artiffisial, o offer a gwasanaethau syml fel awtogwyro testun i algorithmau cymhleth sy'n gallu gyrru ceir yn annibynnol, ochr yn ochr â'r ansicrwydd cynhenid ynghylch llwybr newid technolegol yn y dyfodol, yn ei gwneud yn anodd gwneud datganiadau cadarn am effaith economaidd deallusrwydd artiffisial. Felly, mae rhan gyntaf yr adran hon ond yn nodi rhai o'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg yn y llenyddiaeth ar effaith economaidd deallusrwydd artiffisial. Mae ail ran yr adran hon yn cyflwyno tystiolaeth ddangosol ar fusnesau yng Nghymru sy'n mabwysiadu deallusrwydd artiffisial.

Effeithiau Economaidd Posibl deallusrwydd artiffisial

Mae damcaniaeth economaidd prif ffrwd yn honni bod cyflwyno unrhyw dechnoleg newydd sy'n arbed llafur yn cael dwy effaith economaidd: yr effaith ddadleoli a'r effaith ddigolledu. Mae'r effaith ddadleoli yn arwain at ddisodli gweithwyr â thechnoleg ar gyfer tasgau penodol. Yn achos deallusrwydd artiffisial, mae tasgau arferol a rhagweladwy yn agored iawn i awtomeiddio, gan efallai ddisodli gweithwyr mewn rolau clericio, gweinyddol a rhai swyddi gwasanaethu. Gall hefyd newid rhai mathau o swyddi, gan ddileu'r angen am rai tasgau. Ar y llaw arall, mae'n debyg y byddwn yn gweld cynnydd yn y galw am alwedigaethau sgiliau uchel lle mae angen gallu creadigol, datrys problemau cymhleth, a galluoedd rhyngberonol. Mae amcangyfrifon ynghylch nifer y swyddi yr effeithir arnynt yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y tybiaethau a wneir. Er enghraifft, mae'r IMF yn amcangyfrif bod tua 40% o swyddi ledled y byd yn agored i effeithiau deallusrwydd artiffisial, a hyd at tua 60% mewn economïau datblygedig.¹⁸

Yn hanesyddol, mae effaith iawndal wedi bod yn bwysicach yn y tymor hir. Mae cael llai o weithwyr i gynhyrchu'r un cyfanswm cynnyrch yn cynyddu'r cynhyrchiant cyfartalog sy'n rhoi cyfle i weithwyr gael mwy o iawndal. Roedd elw uwch ac enillion uwch yn cynyddu'r galw am nwyddau a gwasanaethau eraill. Ar ben hynny, drwy

¹⁸ Mauro Cazzaniga, Florence Jaumotte, Longji Li, Giovanni Melina, Augustus J Panton, Carlo Pizzinelli, Emma J Rockall, a Marina Mendes Tavares. "Gen-AI: Artificial Intelligence and the Future of Work", *Staff Discussion Notes* 2024, 001 (2024), <https://doi.org/10.5089/9798400262548.006>

leihau costau ymchwil, datblygu a darparu gwasanaethau, gallai deallusrwydd artiffisial gyflymu arloesi. Gall diwydiannau a modelau busnes cwbl newydd ddod i'r amlwg, yn enwedig mewn meysydd fel meddygaeth bersonol, gweithgynhyrchu uwch, a gwasanaethau digidol. Gallai hyn greu mathau newydd o swyddi ac arallgyfeirio economaidd. O'i gymharu â hyn, mae cystadleuaeth a diogelu hawliau eiddo deallusol hefyd yn sbarduno arloesi. Os bydd deallusrwydd artiffisial yn cynyddu crynodiad y farchnad ac yn gwanhau marchnadoedd, gallai hyn gyfyngu ar gyfraniad arloesol busnesau newydd a phwysau cystadleuol. Felly, gallai deallusrwydd artiffisial wella cynhyrchiant a thwf economaidd, yn enwedig mewn diwydiannau gwybodaeth-ddwys drwy awtomeiddio tasgau arferol, dyrannu adnoddau yn y ffordd orau bosibl, a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nodi bod 'maint ac amseriad yr hwb posibl i gynhyrchiant yn dal yn ansicr iawn'.¹⁹ Yn yr un modd, mae'r OECD yn nodi nad oes cysylltiad hyd yma rhwng cyflymu datblygiad a gwasgariad deallusrwydd artiffisial â thwf cynhyrchiant uwch ar y lefel macroeconomaidd, gan felly fethu gwrthbwysu'r arafu estynedig mewn cynhyrchiant a nodwyd yn yr adran gynharach.²⁰ Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod posibilrwydd y gwelwn gynnydd mawr mewn cynhyrchiant sy'n cael ei sbarduno gan ddeallusrwydd artiffisial mewn cyd-destunau penodol.²¹

Bydd lledaeniad technolegau deallusrwydd artiffisial yn wynebu cyfyngiadau fel amser datblygu, argaeledd data angenrheidiol, cyllideb, ynni, gweithwyr medrus, ac ati. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi tynnu sylw at yr angen i ddiweddarau systemau a etifeddwyd ac mae'n hanfodol gwella ansawdd a mynediad at ddata er mwyn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan ddeallusrwydd artiffisial.²² Efallai y bydd sefydliadau sydd am osgoi risg yn llai parod i wneud y buddsoddiadau angenrheidiol neu'n defnyddio mewnbynnau sydd ag enillion ansicr. Mae technolegau deallusrwydd artiffisial yn cyflwyno risgiau ychwanegol gan gynnwys cyfleoedd newydd ar gyfer seiberdroseddau a bygythiadau i systemau ariannol.

Gall mabwysiadu deallusrwydd artiffisial ddylanwadu ar ddeinameg masnach fyd-eang, gyda'r arweinwyr cynnar yn ennill manteision cystadleuol o ran cynhyrchiant, arloesi a gosod safonau. Gall gwledydd sy'n buddsoddi mewn galluedd a seilwaith deallusrwydd artiffisial ddenu lefelau uwch o fuddsoddiad a thalent o dramor, gan atgyfnerthu eu safle yn yr economi fyd-eang.

Bydd deallusrwydd artiffisial yn effeithio ar gyllid cyhoeddus. Ar yr ochr refeniw, drwy ei effaith ar y sylfaen drethu, yn enwedig elw cwmnïau ac enillion y farchnad lafur. Hefyd ar yr ochr gwariant, drwy gynnig cyfleoedd i wneud arbedion drwy wella

¹⁹ [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: Fiscal risks and sustainability, July 2025](#) tud.134.

²⁰ Filippucci, F. et al. (2024), "The impact of Artificial Intelligence on productivity, distribution and growth: Key mechanisms, initial evidence and policy challenges", *OECD Artificial Intelligence Papers*, Rhif 15, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/8d900037-en>

²¹ Er enghraifft gweler [Brynjolfsson, Li, a Raymond \(2023\)](#)

²² [Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Use of Artificial Intelligence in Government](#), Mawrth 2024

cynhyrchiant gwasanaethau a rheoli'r galw. Gyda'i gilydd, mae'r effeithiau cyllidol cyfanredol yn ansicr iawn ac yn dibynnu ar lwybrau.

Mae natur mwyfwy hollbresennol technolegau deallusrwydd artiffisial yn golygu ei bod yn her i fesur maint ac effaith deallusrwydd artiffisial ar yr economi yng Nghymru ac mae'r tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Casgliad astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ac a gyhoeddwyd yn 2025²³ oedd bod ecosystem deallusrwydd artiffisial y DU bellach wedi tyfu i gynnwys mwy na 5,800 o gwmnïau deallusrwydd artiffisial, gan gynhyrchu refeniw o tua £23.9 biliwn, a chyfrannu £11.8 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros. Canfu'r astudiaeth bod crynodiadau uchel o gwmnïau AI yn Llundain, De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr, gyda'r ardaloedd hynny'n cyfrif am tua 75% o leoliadau swyddfeydd cofrestredig yn 2024. Roedd 1.4% o leoliadau swyddfeydd cofrestredig yng Nghymru.

Mae Arolwg o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) a gynhelir bob pythefnos gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnig cipolwg ar sut mae busnesau yng Nghymru yn mabwysiadu deallusrwydd artiffisial. Nod yr arolwg yw casglu barn busnesau am effaith yr heriau sy'n wynebu'r economi a digwyddiadau eraill ar drosiant, gweithlu, prisiau, masnach a chadernid busnes. Daw data'r dadansoddiad canlynol o [Don 135 yr arolwg](#) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Mai 2025 a 31 Mai 2025. O'r 735 o fusnesau a ymatebodd yng Nghymru (o sampl o 2,660 o fusnesau a oedd â phresenoldeb yng Nghymru) mae 98.9% yn masnachu ar hyn o bryd, gyda 96.9% yn masnachu'n llawn ar hyn o bryd. Dim ond i fusnesau sy'n dweud nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol y gofynnir y cwestiynau am ddeallusrwydd artiffisial.

Mae **Ffigur 10** yn dangos bod ychydig o dan hanner busnesau Cymru (49%) wedi dweud nad ydynt yn defnyddio technolegau deallusrwydd artiffisial ar hyn o bryd, sy'n is na'r gyfran gyfatebol ar gyfer y DU (56%). Y technolegau deallusrwydd artiffisial a ddefnyddir amlaf gan fusnesau Cymru yw prosesu data gan ddefnyddio dysgu peiranyddol (14%), cynhyrchu testun gan ddefnyddio modelau iaith mawr (13%), a chreu cynnwys gweledol (11%).


O'r busnesau nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol ac sy'n defnyddio rhyw fath o ddeallusrwydd artiffisial neu nad ydynt yn siŵr a ydynt yn gwneud hynny, dywedodd ychydig o dan hanner (49%) eu bod yn eu defnyddio i wella gweithrediadau busnes, 19% i ddarparu neu bersonoli cynnyrch neu wasanaethau i gwsmeriaid, a 12% i ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth newydd. O'r un sampl, roedd ychydig dros draean (35%) wedi mabwysiadu deallusrwydd artiffisial drwy brynu meddalwedd allanol neu feddalwedd parod i'w ddefnyddio, roedd 22% wedi datblygu rhaglenni deallusrwydd artiffisial yn fewnol, ac 18% wedi allanoli'r gwaith i ddarparwyr allanol neu drydydd partïon.

²³ [Artificial Intelligence sector study 2024 - GOV.UK](#)

Nid oedd ychydig dros hanner (53%) o fusnesau Cymru'n bwriadu mabwysiadu technolegau deallusrwydd artiffisial yn ystod y tri mis nesaf (Mehefin-Awst 2025). O'r busnesau hynny a oedd yn bwriadu defnyddio deallusrwydd artiffisial o fewn y tri mis nesaf neu nad oeddent yn siŵr am wneud hynny, roedd 41% yn bwriadu ei ddefnyddio i wella gweithrediadau busnes, 16% i ddarparu, neu bersonoli, cynnyrch neu wasanaethau i gwsmeriaid, 12% i ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth newydd a 6% i archwilio marchnad newydd.

Rhai o'r ffactorau a oedd wedi atal busnesau yng Nghymru rhag mabwysiadu technolegau deallusrwydd artiffisial yn ystod y tri mis blaenorol, neu a oedd wedi gwneud iddynt oedi cyn gwneud hynny, oedd lefel yr arbenigedd ym maes deallusrwydd artiffisial (12%), cost (9%), ac anhawster dod o hyd i achosion defnydd busnes (9%).

Ffigur 10: Defnydd busnesau yng Nghymru a'r DU o dechnolegau deallusrwydd artiffisial, Mai 2025



Sylwch: Mae cyfraddau ymateb yn amrywio o un rhanbarth i'r llall ac o un don i'r llall. Gall diffyg ymatebion effeithio ar y modd y dehonglir yr amcangyfrifon hyn. Mae manylion ymateb canrannol pob rhanbarth i'w gweld yn y set ddata fanwl. Gall busnesau ddewis mwy nag un ymateb. Rhoddwyd yr un pwysigrwydd i bob busnes beth bynnag fo'i drosiant, ei faint neu ei ddiwydiant. Ni ddefnyddiwyd rhywfaint o ddata am resymau cyfrinachedd, fel rhai sydd â chanrannau o lai nag 1% ac sydd â llai na 10 ohonynt ym mhob rhanbarth.

Ffynhonnell: [Canlyniadau terfynol, Ton 135 o Arolwg Canfyddiadau ac Amodau Busnes \(BICS\) y Swyddfa Ystadegau Gwladol.](#)

Safonau Byw

Mae data incwm aelwydydd yn fesur pwysig o safonau byw, neu les materol unigolion a theuluoedd. Pan gaiff ei gyflwyno fesul person, mae'n adlewyrchu incwm gwario cymedrig y pen aelwydydd, a'r swm cyfartalog sydd ar gael i'w wario neu ei gynilo ar ôl ystyried trethi, cyfraniadau cymdeithasol a budd-daliadau.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y mesur hwn. Nid yw'n ystyried gwahaniaethau o ran oedran a chyfansoddiad aelwydydd, nid yw'n cynnwys costau ehangach fel tai, ac nid yw'n adlewyrchu gwerth darparu gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, yr incwm cyfartalog (cymedrig) yn unig y mae'n dangos, heb gofnodi dosbarthiad incwm. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau hyn drwy ddangosyddion ategol.

Mae cysylltiad rhwng safonau byw ac allbwn economaidd y DU (cynnyrch domestig gros y pen). Mae **Ffigur 11** yn dangos sut maent wedi symud gyda'i gilydd (ac y rhagwelir y byddant yn symud) dros y cyfnod rhwng 2008-9 a 2029-30. Y prif eithriad yw pandemig COVID-19 pan syrthiodd cynnyrch domestig gros yn gyflym ond cafodd incwm aelwydydd eu cynnal drwy ymyriadau a throsglwyddiadau mawr iawn gan y llywodraeth, fel y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.


Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r twf arafach yng nghynnyrch domestig gros y pen ers tuag adeg yr argyfwng ariannol o'i gymharu â chyfnodau blaenorol yn golygu bod twf incwm aelwydydd y DU wedi bod yn arafach nag mewn cyfnodau blaenorol.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd incwm aelwydydd yn tyfu o 2.9% rhwng 2024-25 a 2029-30 - gweler Ffigur 11.²⁴ Mae twf yn gryfach ym mlwyddyn gyntaf rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2025-26) sef 1% ac yna 1.5% yn 2026-27, wedi'i sbarduno'n bennaf gan y disgwyliad y bydd cyflogau'n codi ychydig yn gyflymach na chwyddiant ar gyfartaledd. Fodd bynnag, fel gyda chynhyrchiant, rhagwelir y bydd safon byw'r DU yn tyfu'n is o lawer na'r duedd hirdymor cyn yr argyfwng ariannol sef tua 2.5% y flwyddyn. Dros y tymor canolig, disgwylir i incwm aelwydydd a safonau byw Cymru ddilyn tueddiadau tebyg i'r rhai yn y DU.

O'i gymharu â rhagolwg Hydref 2024 yr OBR, a oedd yn sail i'r Gyllideb Ddrafft ddiwethaf, mae disgwyl i incwm gwario real aelwydydd (RHDI) y pen, dyfu ychydig yn gyflymach yn ystod cyfnod y rhagolwg. Mae hyn oherwydd rhagolygon twf cryfach mewn cyflogau real, er bod disgwyl i fesurau polisi a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025 leihau RHDI y pen ychydig erbyn 2029-30.

²⁴ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2025) [Economic and fiscal outlook – March 2025](#)

Ffigur 11: Mynegai Incwm Gwario Real Aelwydydd y DU (RHDI) a GDP y pen, 2008-09 i 2029-30



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Ym mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, amcangyfrifodd y Resolution Foundation²⁵ na fyddai unrhyw dwf real yn incwm aelwydydd arferol (canolrifol) y DU nad ydynt yn bensiynwyr yn 2025-26. Rhagwelir mai chwyddiant ychydig yn uwch (gweler yr adran ddiweddarach) yw'r ffactor a fydd yn tynnu fwyaf oddi ar incwm real aelwydydd. Rhagwelir mai dim ond ychydig o dwf fydd yn incwm aelwydydd y DU nad ydynt yn bensiynwyr dros y bum mlynedd o 2024-25, sef cyfanswm o 1%. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw newid i incwm real nodweddiadol (canolrifol) aelwyd yn y DU nad yw'n bensiynwyr erbyn 2029-30 o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2019-20. Os bydd hyn yn digwydd, mae'r Resolution Foundation yn amcangyfrif mai'r 2020au fyddai'r degawd gwaethaf ar gyfer twf safonau byw ers cyn y 1970au, yn is fyth na'r 2010au. Canfu'r Resolution Foundation hefyd y bydd y sefyllfa hyd yn oed yn waeth i hanner aelwydydd incwm is y DU nad ydynt yn bensiynwyr. Byddai'r incwm real nodweddiadol (canolrifol) iddynt 1% yn is yn 2029-30 nag yn 2024-25 a 2% yn is yn 2029-30 o'i gymharu â 2019-20.

Bydd angen ymdrechion hirdymor i gynyddu cynhyrchiant er mwyn cael gwelliannau parhaus mewn safonau byw. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Resolution Foundation²⁶, cylch gwaith Llywodraeth y DU i raddau helaeth yw'r gwaith o gefnogi incwm a safonau byw'r rheini yn hanner isaf y dosbarthiad incwm, drwy'r system les. Mae'n debygol y bydd pwysau sy'n cystadlu â'i gilydd ar adnoddau'r llywodraeth i gynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus, a allai wella safonau byw yn

²⁵ Gweler Resolution Foundation (2025) [The Living Standards Outlook 2025](#)

²⁶ Gweler Resolution Foundation (2025) [The Living Standards Outlook 2025 • Resolution Foundation](#)


anuniongyrchol, yn ogystal â buddsoddi mewn meysydd eraill o wariant cyhoeddus y DU fel amddiffyn. Trafodir y pwysau sy'n wynebu cyllid cyhoeddus ymhellach yn adran gyllidol yr adroddiad hwn.

Safonau byw yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU

Fel y nodwyd uchod, cynhyrchiant yw un o benderfynyddion allweddol safonau byw dros y tymor hir. O ystyried bod cynhyrchiant yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, mae safonau byw yn debygol o adlewyrchu hyn.

Ffigur 12 yn dangos safonau byw yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr o'i gymharu â'r DU gyfan fel y'u mesurwyd yn ffigurau Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen (GDHI) y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gyfer y cyfnod diweddaraf sydd ar gael, 2023, Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yng Nghymru (81.1% o'r DU) oedd yr ail isaf ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr (80.4%), ac yn debyg i Ogledd Iwerddon (82.2%). Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen Cymru o'i gymharu â'r DU, sef 81%, felly ychydig yn is er yn debyg iawn i'w gynhyrchiant (gwerth ychwanegol gros yr awr) o'i gymharu â'r DU, sef 84.9%.

Ffigur 12: Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen (Y DU = 100) yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 1999 i 2023



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Yr ardal wedi'i thywyllu yw'r ystod o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen wedi ehangu dros y tymor hwy. Mae perfformiad rhanbarthau tebyg i Gymru yn debyg. Mae'r rhan fwyaf o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr yn is na chyfartaledd y DU, a

dim ond Llundain, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Dwyrain Lloegr sy'n uwch na'r ffigur hwnnw. Perfformiad Llundain sy'n fwyaf gwahanol, gan gynyddu o'i gymharu â'r DU dros y cyfnod. O ganlyniad, mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen Cymru yn 90% o ffigur y DU pan fyddwch yn hepgor Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Mae'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU (ar ôl hepgor Llundain a De-ddwyrain Lloegr) wedi aros tua'r un lefel am oddeutu'r deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bod Cymru wedi cynnal ei lefel gymharol o ffyniant o'i chymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd y DU dros y tymor canolig.

Mae mesur Incwm Gwario Gros Aelwydydd ar lefel Cymru hefyd yn ddangosydd cenedlaethol: (10) Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen ac a gofnodwyd hefyd ym mhennod Cymru Lewyrchus [adroddiad Llesiant Cymru](#) ac fe'i defnyddir fel un o'r dangosyddion cenedlaethol (i wella Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen erbyn 2035).

Mesuron incwm aelwydydd eraill

Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) yn ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru a'r DU.²⁷ Mae'r arolwg yn caniatáu cyfrifo mesur incwm canolrifol aelwydydd (AHC). Mae incwm canolrifol aelwydydd yn cynnwys yr holl ffynonellau incwm gan holl aelodau'r aelwyd, gan gynnwys dibynyddion, ac mae'n cael ei addasu ('cyfwerthu') i ganiatáu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd. Mae felly'n adlewyrchu profiad aelwyd nodweddiadol, ac fe gaiff ei ystyried yn eang fel y mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol.

Mae defnyddio'r canolrif yn hytrach na'r cymedr yn rhoi cymhariaeth gliriach o lefelau incwm rhwng Cymru a'r DU, gan ei fod yn adlewyrchu'r lefel arferol yn well ac mae gwerthoedd eithafol yn effeithio llai arno.

Ceir archwiliad o'r rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng y mesur cymedrig o incwm o'r Arolwg o Adnoddau Teulu ac Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru](#) t. 27.

Yn y cyfnod diweddaraf, 2021-22 i 2023-24, £616 oedd yr incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (cyn costau tai) yng Nghymru.²⁸ Mae hyn yn 93% o'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan (£659) a dyma'r pumed isaf ar gyfer holl wledydd y DU a ranbarthau Lloegr a dim ond y Gogledd Orllewin Lloegr (£604), Swydd Efrog a Humber (£604) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (£600) sy'n is.²⁹ Llundain oedd â'r incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd uchaf, sef £767.

Dros yr un cyfnod ac ar ôl didynnu costau tai (gweler **Ffigur 13**), Gorllewin Canolbarth Lloegr oedd â'r incwm wythnosol canolrifol isaf o hyd, sef £483 (91% o ffigur y DU), a De-ddwyrain Lloegr oedd â'r ffigur uchaf sef £608 (111% o ffigur y

²⁷ [Family Resources Survey: background information and methodology - GOV.UK](#)


²⁸ Mae'r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24.

²⁹ Byddai'r bwlch hwn yn cael ei leihau drwy addasu ar gyfer costau byw is yng Nghymru.

DU). Mae cost uchel tai yn Llundain yn golygu bod incwm yn is nag yn Ne-ddwyrain Lloegr ar ôl ystyried y rhain. Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (ar ôl costau tai) yng Nghymru oedd 95% (£548) o'r lefel ar gyfer y DU gyfan (£574). Felly, mae'r mesur costau ar ôl ystyried costau tai yn cael effaith gymharol fach ar Gymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr.

Mae **Ffigur 13** hefyd yn dangos, dros y 15 mlynedd diwethaf, mae incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru wedi bod yn gyson is nag ar gyfer y DU gyfan a llawer o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Yr ardaloedd eraill o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr sydd hefyd ag incwm canolrifol aelwydydd sy'n gyson is na chyfartaledd y DU ac oddeutu'r un fath â Chymru dros yr un cyfnod, yw Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Ffigur 13: Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd ar gyfer pobl unigol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarth Lloegr, ar ôl ystyried costau tai (Y DU=100%)



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mae'r ardal sydd wedi'i thywyllu'n dangos uchafswm ac isafswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr.
Ffynhonnell: HBAI, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Buddion mewn nwyddau

Mae tueddiad i fesurau o safon byw sy'n seiliedig ar incwm, fel y rhai a ddangosir uchod, beidio â chynnwys y buddion ehangach nad ydynt yn rhai arian parod a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus, y cyfeirir atynt weithiau fel 'buddion mewn nwyddau'.

Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus; fel iechyd (gan gynnwys presgripsiynau am ddim), addysg (gan gynnwys prydau ysgol am ddim), gofal cymdeithasol a chymorthdaliadau trafnidiaeth gyhoeddus, i gyd yn lleihau'r bwlch incwm (terfynol) rhwng Cymru a'r DU gyfan a rhwng Cymru a'r rhan fwyaf o wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr.³⁰

Mae data'n awgrymu bod y rhain yn debygol o ychwanegu at incwm yng Nghymru o'i gymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd eraill y DU, gan leihau'r bwlch, efallai o tua dau bwynt canran rhwng Cymru a chyfartaledd y DU.³¹ Mae cynnwys buddion mewn nwyddau yn berthnasol ond mae ei effaith ar y gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yn llai nag effaith y system dreth a budd-daliadau.

Tlodi incwm cymharol

I archwilio ymhellach sut mae dosbarthiad incwm aelwydydd yn cymharu yng Nghymru, yn enwedig y rheini tuag at y pegwn isaf, mae'n ddefnyddiol ystyried data ar ganran y bobl sy'n byw mewn tlodi.

Daw data ar gyfer tlodi incwm cymharol o'r adroddiad Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).³² Mae data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yn diffinio bod person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os ydynt yn byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog (canolrifol) aelwydydd y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei roi gan y canolrif).

Rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024, roedd 22% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai)³³ - gweler **Ffigur 14**. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 19 mlynedd.

Yn Lloegr, roedd canran y bobl a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) yn debyg i Gymru, sef 22% rhwng diwedd blwyddyn ariannol 2022 a diwedd blwyddyn ariannol 2024. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y ffigurau oedd

³⁰ Incwm terfynol yw'r mesur mwyaf cynhwysfawr o incwm aelwydydd. Cyfrifir incwm terfynol fel incwm gros *llai* trethi uniongyrchol, *llai* trethi anuniongyrchol *ychwanegu* buddion mewn nwyddau.


³¹ Gweler [Effects of taxes and benefits on household income - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

³² Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). [Households Below Average Income: an analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2024](#)

³³ Mae [dadansoddiadau](#) data eraill ar gael, er enghraifft, plant/oedolion/pensiynwyr oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol, tlodi incwm cymharol yn ôl grŵp oedran, deiliadaeth tai, statws economaidd a math o gyflogaeth, nodweddion teuluol, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, statws mudo a statws diogeledd byyd.

20% ac 17% yn y drefn honno. Roedd y gyfradd tlodi incwm gymharol (ar ôl costau tai) yng Nghymru yn is na Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain; ac, yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr. Ar fesur cyn costau tai, mae safle Cymru'n llai ffafriol (dim ond tair o ranbarthau Lloegr sydd â chyfraddau uwch o'i gymharu â phedwar rhanbarth ar sail ar ôl costau tai).³⁴ Mae hyn yn adlewyrchu'r costau tai uwch mewn rhannau eraill o'r DU o'i gymharu â Chymru.

Ffigur 14: Canran yr holl unigolion sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, diwedd blwyddyn ariannol 2022 i 2024



Ffynhonnell: HBAI, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Newidiadau i anghydraddoldeb incwm aelwydydd y DU

Y [cyfernod Gini](#) yw un o'r mesurau anghydraddoldeb a ddefnyddir fwyaf wrth ddosbarthu incwm aelwydydd. Mae'n cymryd gwerthoedd rhwng 0% a 100%, gyda gwerthoedd uwch yn cynrychioli cynnydd yn lefel yr anghydraddoldeb. Mae gwerth o 0% yn dangos cydraddoldeb llwyr o ran dosbarthiad incwm aelwydydd, sy'n awgrymu bod gan bawb yr un incwm cyfwerth. Mae gwerth o 100% yn dangos anghydraddoldeb llwyr, sy'n awgrymu bod gan un person yr holl incwm, ac nad oes gan y lleill unrhyw incwm.

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod i [anghydraddoldeb incwm aelwydydd](#) y DU ers y 1990au, fel y'i mesurir gan y cyfernod Gini ar gyfer incwm gwario aelwydydd.

³⁴ HBAI (2025) [Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024](#)

Roedd anghydraddoldeb incwm gwario ar gyfer pob unigolyn yn 33% yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024, gostyngiad bach o 35% yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 1990. Mae anghydraddoldeb incwm gwario ar gyfer pobl mewn aelwydydd sydd wedi ymddeol yn parhau i fod yn is nag ar gyfer aelwydydd nad ydynt wedi ymddeol.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae amcanestyniadau twf incwm aelwydydd y Resolution Foundation ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2029-30 yn waeth i aelwydydd incwm is, ac i blant³⁵, sy'n cael eu sbarduno'n bennaf gan newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r gyfundrefn les.³⁶ O ystyried hyn, rhagwelir y bydd y rhagolygon o ran tlodi plant yn codi hefyd. Ni ragwelir y bydd y gyfradd tlodi pensiynwyr yn cynyddu ar y pryd hwnnw.

Mae'r rhagolygon tlodi plant ar gyfer Cymru yn waeth na holl wledydd eraill y DU (mae twf rhent preifat o 8%³⁷ a chynnydd o 7% yn y Dreth Gyngor yn effeithio ar incwm yng Nghymru - y naill a'r llall yn uwch nag yn y rhan fwyaf o rannau'r DU³⁸). Mae'r Resolution Foundation yn rhagweld y bydd cynnydd o 5.4 pwynt canran yn y gyfradd tlodi plant gymharol yng Nghymru rhwng 2023-24 a 2029-30. Mae hyn yn cymharu â'r newidiadau canrannol cronol canlynol a ragwelir yng nghyfran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol dros yr un cyfnod yn y DU gyfan a gwledydd eraill y DU: Y DU +4.0 pwynt canran; Lloegr +4.1 pwynt canran; Gogledd Iwerddon +4.4 pwynt canran; a'r Alban +0.9 pwynt canran. Nid oes disgwyl i'r gyfradd tlodi plant yn yr Alban godi'n sylweddol dros gyfnod y rhagolwg o ystyried Taliadau Plant yr Alban, gwrthbwysu'r terfyn dau blentyn o 2026 ymlaen, a pholisïau gwrthbwysu eraill a ddisgwylir.

Gwariant, defnydd a safonau byw

Mae tueddiad i ddadansoddiadau tlodi a safonau byw yn y DU ganolbwyntio ar incwm aelwydydd fel mesur allweddol, sy'n cael ei werthfawrogi am ei berthnasedd polisi cryf (gan y gellir ei amrywio drwy drethi a budd-daliadau) a'i rôl fel procsi ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, gall gwariant ar ddefnydd aelwydydd fod yn fesur gwell o safonau byw gwirioneddol, gan ei fod yn adlewyrchu sut mae pobl yn diwallu eu hanghenion dros amser ac mae cysylltiad agos rhwng hyn â llesiant goddrychol.

Yn gyffredinol, mae defnydd yn llai cyfnewidiol nag incwm, sy'n golygu y gallai fod yn fesur mwy sefydlog o safonau byw, yn enwedig mewn achosion pan fo siociau

³⁵ Resolution Foundation 2025 [The Living Standards Outlook 2025 • Resolution Foundation](#)

³⁶ Ers i'r Resolution Foundation gyhoeddi'r Living Standards Outlook 2025, mae toriadau i fudd-daliadau anabledd wedi cael eu gwrthdroi'n sylweddol. Effaith hyn fydd lleihau colledion incwm ychydig ar draws hanner isaf y dosbarthiad incwm.

³⁷ Data Mai 2025

³⁸ Fel y trafodwyd yn [UK Poverty 2025 • Sefydliad Joseph Rowntree](#), rhai o'r ffactorau eraill sy'n sbarduno gwahaniaethau mewn lefelau tlodi yw gwahaniaethau mewn marchnadoedd llafur (gan gynnwys lefelau cyflogaeth, y sectorau y gweithir ynddynt a chyfraddau cyflogau) a chyfraddau derbyn budd-daliadau, ochr yn ochr â ffactorau demograffig ehangach (oedran, mathau o deuluoedd a maint teuluoedd).

incwm dros dro. Mae'r ddamcaniaeth incwm barhaol yn cefnogi hyn, gan awgrymu bod unigolion yn seilio eu gwariant ar ddisgwyliadau incwm tymor hir yn hytrach nag amrywiadau tymor byr.

Gall data defnydd hefyd fod yn fwy cywir ar ben isaf y raddfa incwm, lle caiff incwm ei dan-adrodd yn aml. Mae arolygon am wariant hefyd yn tueddu i fod yn llai sensitif na'r rhai am incwm, gan leihau cyfraddau gwallau.

Fodd bynnag, mae diffygion yn y mesurau defnyddio. Efallai na fyddant yn dangos manteision hirdymor nwyddau gwydn, gan arwain at oramcangyfrif tlodi ymysg aelwydydd sy'n gyfoethog o ran asedau. Mae rhai eitemau (fel alcohol neu gamblo) yn aml yn cael eu tan-adrodd mewn arolygon, a gall fod yn gostus ac yn gymhleth i gasglu data.


Yn y pen draw, mae incwm a defnydd yn rhoi cipolwg ategol ar dlodi a safonau byw.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi data gwariant. Mae'n cynnwys yr holl wariant ar nwyddau a gwasanaethau gan drigolion rhanbarth neu wlad yn y DU, ni waeth ble mae'r gwariant hwnnw'n digwydd. Mae defnyddio gwariant cenedlaethol y pen yn golygu bod modd cymharu gwariant ar draws rhanbarthau o wahanol faint a phoblogaeth.

Y gwariant cenedlaethol y pen ar gyfer Cymru yn 2022 oedd £20,693, o'i gymharu â £22,227 ar gyfer y DU yn gyffredinol. O blith rhanbarthau Lloegr a gwledydd y DU, Llundain oedd â'r gwariant cenedlaethol uchaf y pen yn 2022, sef £26,309. Costau tai uwch oedd yn bennaf gyfrifol am hyn. Yn 2022, roedd y gwariant isaf y pen yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, ar £17,544.

Roedd gwariant y pen yng Nghymru 6.9% yn is na chyfartaledd y DU, gweler **Ffigur 15**. Roedd gwariant y pen yng Nghymru yn uwch nag yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Humber. Yr unig ranbarthau yn Lloegr a gwledydd y DU sydd â gwariant y pen uwch na chyfartaledd y DU oedd De-orllewin Lloegr, De-ddwyrain Lloegr a Llundain. Mae hyn yn awgrymu y gallai safonau byw cyfartalog, fel y'u mesurir yn ôl gwariant a defnydd yng Nghymru, fod yn agosach at gyfartaledd y DU nag amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fesurau allbwn economaidd ac incwm.

Ffigur 15: Gwariant y pen - gwahaniaeth canrannol o'r DU, 2022



Ffynhonnell: Gwariant Defnydd Terfynol Aelwydydd yn ôl Rhanbarth, Swyddfa Ystadegau Gwladol


Rhwng 2021 a 2022, Cymru oedd â'r cynnydd mwyaf mewn gwariant y pen ar 19.5%, y cynnydd ar draws y DU oedd 12.5%. Fodd bynnag, mae hyn mewn termau arian parod ac nid yw'n ystyried chwyddiant. I roi cyd-destun, y gyfradd chwyddiant gyffredinol yn 2022 fel y'i mesurwyd gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys perchen-feddianwyr, oedd 7.9%.

Cyfoeth

Gall pobl ddefnyddio cyfoeth i ategu eu hincwm i hybu eu defnydd, eu gwariant neu eu safonau byw. Felly, mae mesurau cyfoeth hefyd yn enghreifftiol er mwyn helpu i ddeall mwy am wahaniaethau posibl i safonau byw yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Mae data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (mis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2022) ar gyfoeth canolrifol aelwydydd 9% yn is yng Nghymru na chyfartaledd Prydain Fawr, ond yn uwch nag yn yr Alban, rhanbarthau Gogleddol a Chanolbarth Lloegr, a Llundain, gweler **Ffigur 16**.

Ffigur 16: Canolrif cyfoeth aelwydydd, gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â chanolrif Prydain Fawr, mis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2022



Ffynhonnell: Arolwg Cyfoeth ac Asedau, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, elfen fwyaf cyfoeth net Cymru (ar ôl unrhyw ddyledion neu rwymedigaethau) yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2022 oedd cyfoeth pensiynau preifat (39%), ac yna cyfoeth eiddo (35%). Yr elfennau o gyfoeth sy'n weddill yw cyfoeth ffisegol (14%), gwerth cerbydau, eitemau casgladwy a chynnwys cartrefi - a chyfoeth ariannol (13%), gwerth cynilion neu fuddsoddiadau llai rhwymedigaethau ariannol.

Mae data cyfoeth yng Nghymru yn debygol o adlewyrchu'r proffil demograffig; mae tua 20% o boblogaeth Cymru o oedran pensiwn, ac mae ganddi gyfran gymharol fawr o aelwydydd sy'n berchen-feddianwyr. Mae **Tabl 1** yn dangos bod gan Gymru gyfran uwch o berchnogaeth eiddo na Lloegr, sy'n cael ei sbarduno gan y nifer uwch o gartrefi dan berchnogaeth lwyr. Mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan y gyfran is o eiddo rhent preifat, sy'n is yng Nghymru nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Mae cyfran perchnogaeth lwyr yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Fodd bynnag, roedd perchnogaeth tai yn uwch yn gyffredinol mewn dau o ranbarthau Lloegr nag yr oedd yng Nghymru (De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr). Byddwn yn edrych ar brisiau tai mewn adran ddiweddarach.

Tabl 1: Cyfran y stoc dai yn ôl math o ddeiliadaeth, 2021

Math o ddeiliadaeth	Lloegr	Cymru
Perchnogaeth lwyr	33%	38%
Perchnogaeth gyda morgais, benthyciad neu ranberchenogaeth	30%	28%
Rhent cymdeithasol	17%	16%
Rhentu'n breifat neu'n byw'n ddi-rent	21%	17%
Cyfanswm	100%	100%
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021		

Enillion

Mae cysylltiad pendant rhwng enillion â chynhyrchiant a safonau byw. Mae cynhyrchiant uwch (gweler yr adran flaenorol) yn galluogi busnesau i dalu cyflogau uwch heb gynyddu costau. Y rheswm am hyn yw bod cynhyrchu mwy effeithlon yn arwain at fwy o allbwn ac, o bosibl, mwy o elw, gan ganiatáu i gwmnïau rannu'r enillion hyn â gweithwyr. Dangosodd yr adran gynharach ar gynhyrchiant ac [adroddiad y llynedd](#) sut roedd twf cynhyrchiant wedi arafu ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang. Mae hyn hefyd wedi gorgyffwrdd â'r hyn sydd wedi digwydd gyda thwf cyflogau yn y DU.³⁹

Mae enillion y farchnad lafur hefyd yn brif ffactor sy'n pennu safonau byw. Pan fydd enillion yn codi, mae gan unigolion fwy o incwm i'w wario ar nwyddau a gwasanaethau, a gall hyn arwain at ansawdd bywyd gwell.

Mae'r Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn darparu gwybodaeth am enillion ac oriau a weithiwyd ar gyfer gweithwyr. Nid yw'n cynnwys incwm a enillir o hunangyflogaeth, pensiynau a ffynonellau eraill.

Mae data diweddaraf yr ASHE yn dangos mai £674.5 oedd y canolrif enillion wythnosol (cyn unrhyw ddiidyniadau) ar gyfer oedolion amser llawn sy'n gweithio yng Nghymru fis Ebrill 2024 (neu £34,303 ar sail blwyddyn dreth).⁴⁰ Roedd hyn 92.6% (neu 7.4% yn is na'r cyfartaledd) ar gyfer y DU (£728.3 neu £37,430 ar sail blwyddyn dreth). Gan fod y mesur hwn o gyflogau yn defnyddio'r canolrif, nid yw'n cael ei ystumio gan wahaniaethau ar ben isaf na phen uchaf y dosbarthiad, gan ddefnyddio gwahaniaethau ar lefelau enillion mwy nodweddiadol.

Yr enillion wythnosol gros cyfartalog yng Nghymru oedd yr wythfed uchaf o blith y 12 o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, gweler **Ffigur 17**. Fel gyda llawer o ystadegau economaidd yn y DU, roedd Llundain (24.3%) a De-ddwyrain Lloegr (3.5%) yn fwy na chanolrif y DU. Fodd bynnag, roedd yr Alban (1.6%) hefyd yn uwch na chanolrif y DU.

Adeg datganoli ym 1999, roedd enillion wythnosol gros canolrifol oedolion sy'n gweithio'n llawn amser yng Nghymru 8.3% yn is na'r ffigur cyfatebol yn y DU, a'r unig wledydd a rhanbarthau gydag enillion is na Chymru oedd Gogledd-ddwyrain Lloegr (9.1% yn is) a Gogledd Iwerddon (10.1% yn is).

³⁹ Mae tystiolaeth ddiweddar sydd wedi archwilio'r berthynas hon a'r rhesymau pam y gallai fod wedi digwydd yn cael eu harchwilio ym Machin (2025) (gweler Real wage and productivity stagnation *Oxford Review of Economic Policy*, Cyfrol 41, Rhifyn 1, Gwanwyn 2025, Tudalennau 105-119, <https://doi.org/10.1093/oxrep/graf013>)

⁴⁰ Gall y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddiwygio hyn yn ystod hydref 2025.

Mae'r ymchwil ddiweddaraf⁴¹ ar egluro'r gwahaniaethau mewn enillion rhwng lleoedd (ardaloedd teithio i'r gwaith) yn awgrymu i weithwyr ar ddechrau eu gyrfa (er y gallai hefyd fod yn berthnasol i bob gweithiwr) mai effeithiau lleoedd yw'r ffactor pwysicaf wrth egluro anghydraddoldeb cyflogau rhwng ardaloedd, hyd yn oed ar ôl ystyried nodweddion newidiol pobl. Er bod nodweddion unigol yn dal yn bwysig, mae'r ymchwil newydd sy'n defnyddio set ddata fawr o weithwyr ifanc yn Lloegr yn awgrymu bod effeithiau pobl yn llai na'r hyn a welwyd mewn astudiaethau cynharach.⁴² Canfuwyd hefyd bod y gwahaniaethau rhwng cyflogau o un ardal i'r llall yn digwydd o fewn diwydiannau a chwmnïau o faint tebyg, felly nid yw eu strwythur diwydiannol yn esbonio rhyw lawer o'r gwahaniaethau. Dyma fwy o'r math o waith maen nhw'n ei wneud, yn enwedig y rhai sy'n perfformio'n dda, sy'n debygol o fod yn fusnesau cynhyrchol iawn. Canfuwyd bod effeithiau cydgrynhoi hefyd yn bwysig ar gyfer cyflogau, ond nid ydynt yn gryf. Felly, mae goblygiadau polisi'r ymchwil ddiweddaraf hon yn awgrymu sicrhau busnesau cynhyrchol iawn sy'n perfformio'n dda mewn rhai lleoliadau, yn ogystal â gwella cyfalaf dynol a sgiliau pobl mewn mannau.

Yn y cyfnod rhwng 1999 a 2024, y data diweddaraf sydd ar gael, bu cynnydd o 111% yn enillion y DU (mewn termau nominal neu arian parod).⁴³ Dros yr un cyfnod, bu cynnydd o 113% mewn enillion canolrifol yng Nghymru. Cymru oedd â'r chweched newid canrannol uchaf ymhlith 12 gwlad y DU a rhanbarthau Lloegr yn 2024. Bu cynnydd o 6.0% yn enillion amser llawn wythnosol Cymru a'r DU ym mis Ebrill 2024 o'i gymharu ag Ebrill 2023.


Bydd chwyddiant wedi erydu'r cynnydd real mewn enillion dros amser. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn ddiweddar pan fo chwyddiant wedi bod yn eithriadol o uchel o'i gymharu â'r rhan fwyaf o'r 2000au. Edrychir yn ddiweddarach ar effaith ddiweddar chwyddiant ar enillion.

⁴¹ Gweler R Egyei, E Fry, T Kitsos, D Ribaud, G Thwaites, E Vanino, *The power of place: The role of place in driving regional pay inequalities*, Resolution Foundation, Mehefin 2025
<https://doi.org/10.63492/xnr30>

⁴² Mae tystiolaeth a nodwyd yn flaenorol yn adroddiadau Prif Economegydd Llywodraeth Cymru wedi nodi sut roedd *effeithiau pobl* yn tueddu i ddominyddu dros *effeithiau lleoedd* (gweler H Overman a X Xu, Spatial disparities across labour markets, IFS Deaton Review of Inequalities, 2022)

⁴³ Dim ond gyda'r amcangyfrifon rhwng 1997 a 2003 y gellir cymharu data 1999 yn uniongyrchol. Nid yw cymariaethau â blyneddau eraill yn gwbl ddilys oherwydd newidiadau yn y fethodoleg. Felly, mae hyn yn fwy dangosol ac yn cael ei ddefnyddio mwy at ddibenion cymharu. I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg y data, gweler adroddiad gwybodaeth ansawdd a methodoleg Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol:
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/methodologies/annualsurveyofhoursandearningslowpayandannualsurveyofhoursandearningspen>

Ffigur 17: Y gwahaniaeth yng nghanran yr enillion wythnosol gros canolrifol o'i gymharu â'r DU, yn ôl gwledydd y DU a rhanbarth yn Lloegr, 2024




Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gellir adrodd ar enillion hefyd ar sail man gwaith neu fan preswyl, i gyfrif am effeithiau cymudo. Ar sail preswyl, roedd canolrif enillion wythnosol llawn amser y rhai sy'n byw yng Nghymru yn 94.0% o gyfartaledd y DU (ac roedd y rhai a oedd yn gweithio yng Nghymru yn unig yn 92.6% o gyfartaledd y DU). Felly, mae cymudo'n esbonio rhywfaint o'r gwahaniaeth mewn enillion rhwng y DU a Chymru. Mae elfennau tebyg i'r rhai sy'n achosi'r gwahaniaethau mewn cynhyrchiant rhwng lleoliadau yn debygol o esbonio'r gwahaniaeth sy'n weddill.

Wrth edrych ar enillion rhan-amser ac amser llawn gyda'i gilydd (ac nid dim ond amser llawn), ar sail gweithle, roedd enillion wythnosol Cymru (gros) yn 92.2% o ganolrif y DU, sy'n is na'r enillion amser llawn (92.6%) yn 2024. Mae hyn yn dangos bod gan Gymru hefyd gyfran gymharol uwch o weithwyr rhan-amser na'r DU, ac mae angen ystyried hyn hefyd wrth gymharu enillion.

Dros y tymor byr i ganolig, mae'n debygol iawn y bydd cydberthynas rhwng enillion yng Nghymru a'r DU ac y byddant yn symud gyda'i gilydd. Mae data misol o gyflogau canolrifol Talu Wrth Ennill (TWE) ar gyfer mis Ionawr 2023 yn awgrymu hyn, gweler **Ffigur 18**. Felly, gall tueddiadau tymor canolig i hirdymor yn enillion y DU fod yn arwydd o newidiadau yng Nghymru hefyd.

Ffigur 18: Gwybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill, mynegai tâl canolrifol (2023=100) Cymru a'r DU, Ionawr 2024 i Orffennaf 2025



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Enillion a chwyddiant


Rhwng 2023 a 2024, bu cynnydd o 6.0% mewn enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer oedolion amser llawn sy'n gweithio yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2024, roedd chwyddiant (cyfradd CPI flynyddol) yn 2.3%. Felly, roedd y cynnydd real mewn cyflogau ychydig o dan 4% ym mis Ebrill 2024. Yn y flwyddyn flaenorol rhwng 2023 a 2023, bu cynnydd o 6.1% mewn enillion wythnosol gros canolrifol oedolion sy'n gweithio'n llawn amser yng Nghymru, a gyda chyfradd chwyddiant (CPI) o 8.7% ym mis Ebrill 2023, roedd yna ostyngiad o dros 2.5% mewn termau real.

Er mai dim ond yn flynyddol y gellir edrych ar ddata enillion swyddogol ar gyfer Cymru, gyda'r data diweddaraf yn ymwneud ag Ebrill 2024, gellir darparu data mwy diweddar a rheolaidd ar enillion a chwyddiant ar lefel y DU.

Yn ystod 2025, bu cynnydd o rhwng 2% a 3% mewn cyflogau real yn y DU, gweler **Ffigur 19**. Fodd bynnag, y cyfan mae hyn wedi'i wneud yw adfer enillion real i'r lefelau yn 2021, ac ers hynny mae'r adferiad ar ôl y pandemig, ac yna'n fwy felly'r argyfwng costau byw, wedi arwain at fwy o gynnydd mewn chwyddiant nac mewn cyflogau, sy'n golygu y bu gostyngiad real mewn cyflogau yn ystod 2022 a dechrau 2023.

Rhwng 2000 a 2007, bu cynnydd o tua 2.5% y flwyddyn yng nghyflogau'r DU. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod rhwng 2008 a 2014, disgynnodd cyflogau real i lefel a oedd tua 10% yn is na chyfartaledd 2008. Cynyddodd cyflogau real yn araf wedyn, gyda chynnydd sydyn yn ystod COVID-19 ac yna gostyngiad eto yn ystod yr adferiad a'r argyfwng costau byw. Erbyn hyn, dim ond 2.2% yn uwch nag yn 2008 y mae cyflogau real. Ar gyfartaledd, mae twf cyflogau real dros yr 17 mlynedd diwethaf yn cyfateb fwy neu lai i flwyddyn o dwf yn ystod y cyfnod 2000 i 2008. Wrth edrych yn ôl ymhellach, gwelir nad yw'r arafu diweddar hwn mewn twf cyflogau real wedi digwydd o gwbl yn yr oes fodern; dyma'r cyfnod hiraf y mae cofnodion tebyg yn bodoli ar ei gyfer, sy'n dyddio'n ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg o leiaf.⁴⁴ Mae gwir dwf mewn cyflogau yn y DU yn ystod y cyfnod diweddar yn gymharol wael o'i gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd yr OECD ag economïau datblygedig.⁴⁵

Ffigur 19: Mynegai cyflogau real (cyfanswm cyflog) (2008=100) yn y DU, 2000-2025



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Enillion ar draws y dosbarthiad

Wrth edrych ar sut mae cyflogau wedi gwneud ar draws y dosbarthiad incwm, awgrymir bod cyflogau'r DU wedi codi mwy ers 1999 i'r rheini tuag at ben isaf y dosbarthiad incwm, o'i gymharu â'r rhai ar y brig. Mae hyn wedi gwyrddroi'r sefyllfa a

⁴⁴ Gweler Stephen Machin, Real wage and productivity stagnation, Oxford Review of Economic Policy, Cyfrol 41, Rhifyn 1, Gwanwyn 2025, Tudalennau 105-119, <https://doi.org/10.1093/oxrep/graf013>

⁴⁵ Gweler Stephen Machin, Real wage and productivity stagnation, Oxford Review of Economic Policy, Cyfrol 41, Rhifyn 1, Gwanwyn 2025, Tudalennau 105-119, <https://doi.org/10.1093/oxrep/graf013>

welwyd rhwng 1975 a 1999.⁴⁶ Mae'r rheswm dros y gwyrddroad hwn ac am gyflogau tuag at y pen isaf yn aneglur. Fodd bynnag, efallai fod polisiau marchnad lafur y DU wedi helpu yn hyn o beth, fel cyflwyno'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, a allai fod wedi helpu i gynyddu cyflogau, yn enwedig i'r rheini ar y pen isaf. Fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn egluro pam y gallai twf cyflogau uwch na hyn fod wedi cynyddu mwy na'r cyflogau tuag at y brig. Daw hyn hefyd o ddata arolwg, sy'n tueddu i dan-adrodd cyflogau uchel. Mae tueddiad i ffynonellau data gweinyddol amgen ddangos twf cryfach mewn cyflogau tuag at frig y dosbarthiad cyflog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r twf yn dal yn is na'r cyflogau ar y pen isaf.⁴⁷ Felly, efallai mai dim ond yn rhannol y mae tan-adrodd enillion yn esbonio pam na welwyd cynnydd mor gryf yn rhai o'r cyflogau uchaf un. Mae'n debygol y bydd y tueddiadau hyn wedi digwydd yng Nghymru hefyd.

⁴⁶ Gweler [Real hourly pay growth by pay percentile, UK, 1975-1999 and 1999-2023 - GOV.UK](#)

⁴⁷ Gweler tabl 5 o [Enillion a chyflogaeth o Wybodaeth Amser Real y Cynllun Talu Wrth Ennill, wedi ei addasu'n dymhorol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Chwyddiant

Chwyddiant yw'r gyfradd y mae prisiau nwyddau a gwasanaethau yn *cynyddu* dros amser.⁴⁸ Dyma fu un o'r nodweddion economaidd mwyaf arwyddocaol ac amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyrhaeddodd chwyddiant prisiau defnyddwyr, y chwyddiant cynrychioliadol a brofwyd gan unigolion ac aelwydydd, benllanw o 11.1% ym mis Hydref 2022, y gyfradd uchaf yn y DU mewn dros 40 mlynedd. Sbardunwyd gan y cynnydd mewn prisiau ynni yn dilyn y gwrthdaro rhwng Rwsia â'r Wcráin, aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi a achoswyd gan bandemig COVID-19 a chynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau, wrth i wledydd godi cyfyngiadau a gynlluniwyd i ddelio â'r pandemig. Mae'n debygol bod y digwyddiadau hyn yn y gorffennol wedi arwain at ryw faint o barhad mewn chwyddiant.

Bu cwymp mewn chwyddiant yn ystod 2023 a hanner cyntaf 2024⁴⁹, gyda chwyddiant yn dychwelyd i gyfraddau mwy arferol, ac mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn nes at darged chwyddiant Banc Lloegr o 2% (gweler **Ffigur 20**).

Dros ail hanner 2024 ac yna hanner cyntaf 2025, mae chwyddiant wedi dechrau codi eto, er bod hynny ar gyfradd arafach o lawer nag yn 2021 a 2022. Ar gyfradd o dros 3% (cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr 3.8% yn y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2025), mae chwyddiant hefyd wedi bod dros hanner pwynt canran yn uwch yn ystod 2025 hyd yma na'r hyn a ddisgwyliwyd y llynedd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei rhagolwg ym mis Hydref 2024, sef y rhagolygon diweddaraf adeg Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru'r llynedd (ar gyfer 2025-26). Bryd hynny, y disgwyliad oedd y byddai chwyddiant o rhwng 2.5% a 3%.

Mae rhagolwg chwyddiant diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr (Mawrth 2025) yn awgrymu y bydd chwyddiant y DU yn cyrraedd penllanw tua diwedd 2025, sef ychydig o dan 4% (yn debyg i ragolwg diweddaraf Banc Lloegr ym mis Awst). Yna, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl iddo ddisgyn i'r targed chwyddiant o 2% yn ystod ail chwarter 2026. Fodd bynnag, mae rhagolwg diweddaraf Banc Lloegr ym mis Awst⁵⁰ nawr yn disgwyl i chwyddiant fod ychydig yn fwy parhaus, ac y bydd yn gostwng yn fwy graddol, ac na fydd yn cyrraedd y targed tan Ch2 2027.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd chwyddiant yn aros yn 2% dros gyfnod y rhagolwg o ganol 2026 ymlaen. Yn gyffredinol, disgwylir iddo ddychwelyd i'r targed o 2%, tua'r un adeg â disgwyliad y rhagolwg ym mis Hydref 2024. Ar sail gwallau hanesyddol yn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, maent yn disgwyl y bydd siawns o tua un mewn pump y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn is na 2.6% neu'n uwch na 4.0% yn 2025.


⁴⁸ Os bydd y prisiau hynny'n gostwng, datchwyddiant yw'r enw am hynny.

⁴⁹ Nid yw hyn yn golygu bod prisiau'n gostwng ond eu bod yn codi'n arafach nag o'r blaen.

⁵⁰ Gweler y [Monetary Policy Report - August 2025 | Banc Lloegr](#)

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn disgwyl i'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros (mesur pris yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhrychir yn ddomestig, a ddefnyddir yn helaeth yn y sector cyhoeddus) dyfu'n unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan mwyaf drwy gydol cyfnod y rhagolwg.

Ffigur 20: Cyfradd chwyddiant (CPI) a rhagolygon, Ch2 2019 i Ch4 2029



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Banc Lloegr

Mae chwyddiant yn y sector gwasanaethu, sy'n cyfrif am tua 50% o'r fasged Mynegai Prisiau Defnyddwyr - y ffordd y mae chwyddiant yn cael ei fesur, yn parhau i fod yn uchel. Mae wedi bod yn uchel ers cyfnod hir bellach, gyda chwyddiant gwasanaethu'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 5.0% ym mis Gorffennaf 2025. Mae Banc Lloegr yn ystyried bod chwyddiant yn y sector gwasanaethu yn arbennig o bwysig wrth bennu'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant prisiau defnyddwyr sy'n cyrraedd targed chwyddiant Llywodraeth y DU o 2.0% oherwydd ei gysylltiadau â pharhad chwyddiant.

Y Banc sy'n gyfrifol am gyflawni'r targed ac mae'n defnyddio polisi ariannol, cyfraddau llog yn bennaf, i wneud hynny. Mae Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc yn credu y bydd chwyddiant prisiau gwasanaethau yn parhau i fod yn uwch am sawl mis arall cyn gostwng yn 2026 gan dybio na fydd y cynnydd mawr mewn prisiau a reoleiddir (biliau dŵr ac ati) eleni yn digwydd eto. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol


hefyd yn disgwyl i dwf cyflogau leddfu gan adlewyrchu'r gwanhad yn amodau'r farchnad lafur (gweler yr adran ddiweddarach ar gyflogau a'r farchnad lafur). Yn y cyd-destun hwn, disgwylir yn gyffredinol y bydd y Pwyllgor yn lleihau cyfraddau llog yn raddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Fodd bynnag, mae'n sefyllfa gyfnewidiol iawn ac mae llawer o risgiau ynghlwm. O ganlyniad, mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn parhau i fod yn ofalus cyn cyflwyno unrhyw ostyngiad posibl yn y gyfradd llog, gan y gallai chwyddiant yn y sector gwasanaethu yn arbennig olygu twf cyflogau a pharhad chwyddiant sylfaenol.

Er nad oes data chwyddiant ar gyfer Cymru yn unig, mae'n debygol iawn y bydd y gyfradd yn debyg iawn i gyfradd y DU. Mae dadansoddiad yn ôl gwahanol fathau o aelwydydd a ddangosir yn [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#) yn awgrymu y gallai Cymru, neu o leiaf rhai aelwydydd yng Nghymru, fod wedi wynebu lefelau cymharol uwch o chwyddiant.⁵¹

Gwelwyd cynnydd mewn chwyddiant mewn llawer o economïau mawr eraill hefyd yn ystod 2022. Yna gostyngodd yn raddol tuag at ddiwedd 2022 ac yn fwy felly yn 2023, gweler **Ffigur 21**. Er bod cyfradd chwyddiant y DU yn gyffredinol wedi dilyn llawer o gyfraddau chwyddiant economïau mawr eraill yn ystod 2024, mae'n ymddangos yn fwy diweddar bod chwyddiant y DU wedi bod yn uwch na'r rhain, gyda'r data diweddaraf yn awgrymu ei fod yn wahanol iawn i'r duedd yn Ewrop (mae data'r Unol Daleithiau a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ond yn cynnwys data tan fis Rhagfyr 2024).

⁵¹ I gael rhagor o wybodaeth am sut mae chwyddiant yn effeithio ar aelwydydd gwahanol, gweler fwletin ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gyhoeddwyd ar Wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 28 Awst 2025 [Household Costs Indices, UK: April to June 2025](#)

Ffigur 21: Cyfraddau chwyddiant ar draws economïau mawr a rhai o economïau'r UE, Ebrill 2021 i Orffennaf 2025



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Prisiau Tai

Mae'r adran hon yn dadansoddi twf prisiau tai yng Nghymru o'i chymharu â rhanbarthau eraill y DU ers datganoli, yn adolygu tueddiadau prisiau tai rhanbarthol yng Nghymru, ac yn ystyried effaith bosibl premiymau'r dreth gyngor ar brisiau tai mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ar gyfer ail gartrefi.

Mae amrywiaeth o fynegeion prisiau tai'r DU yn rhoi cipolwg ar dueddiadau'r farchnad eiddo, ond nid yw eu darpariaeth yn gyson ar draws Cymru. [Mynegai Prisiau Tai'r DU \(UK HPI\)](#), a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n darparu'r data mwyaf cynhwysfawr a swyddogol, gan gynnwys dadansoddiad penodol ar gyfer Cymru. Mae [Cymdeithas Adeiladu'r Principality](#), mewn partneriaeth â LSL Acadata, yn cyhoeddi mynegai chwarterol ar gyfer Cymru'n unig gyda manylion awdurdodau lleol. Yn groes i hynny, mae mynegeion Rightmove, Halifax a Nationwide yn cwmpasu'r DU neu Gymru a Lloegr gyda'i gilydd, er bod Nationwide yn cynnwys Cymru yn ei dadansoddiadau rhanbarthol chwarterol. Mae cymariaethau manylach ac esboniadau manylach o'r fethodoleg ar gael ar wefan.gov.uk.


Newidiadau mewn prisiau tai ers datganoli

Bu cynnydd o 2.6% ym mhris cyfartalog tai yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyrraedd £209,728 ym mis Mehefin 2025.⁵² Mae'r twf hwn yn parhau â'r adferiad cymedrol a welwyd yn ystod y 12 mis hyd at fis Mehefin 2024, pan welwyd cynnydd o 2.1%, yn dilyn cyfnod o ddiffyg twf mewn prisiau drwy gydol 2023 ar ôl twf sylweddol yn gynharach yn y ddegawd. Mae'r pris cyfartalog yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru o £329,177 yn Sir Fynwy i £134,442 ym Mlaenau Gwent.

Ers datganoli ym 1999, mae cynnydd blyneddol cyfartalog o 6.3% wedi bod mewn prisiau tai yng Nghymru. Mewn cymhariaeth, gwelodd yr Alban gyfradd dwf flynyddol gyfartalog o 5.7%, ac roedd cyfradd dwf o 5.6% ar draws y DU. O'i chymharu â rhanbarthau yn Lloegr a oedd â phrisiau tai cychwynnol tebyg i Gymru yn 1999, roedd twf prisiau ychydig yn uwch yng Nghymru nag yng Ngogledd Dwyrain Lloegr (5.5%) a Swydd Efrog a Humber (6.2%), gweler **Ffigur 22**. Llundain (6.6%), Gogledd Orllewin Lloegr (6.4%), a Dwyrain Canolbarth Lloegr (6.3%) yw'r unig ranbarthau yn Lloegr sydd wedi gweld cynnydd blyneddol cyfartalog uwch na Chymru.

⁵² Daw'r holl ffigurau o [Fynegai Prisiau Tai'r DU Mehefin 2025](#), sy'n gyfredol adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Awst 2025.

Ffigur 22: Pris tŷ cyfartalog ers datganoli, Cymru, yr Alban, y DU, rhai rhanbarthau o'r DU ac ystod prisiau'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru



Ardal gysgodol yw ystod y 22 Awdurdod Lleol

Ffynhonnell: ONS/Y Gofrestrfa Tir


Newidiadau Rhanbarthol ym Mhrisiau Tai yng Nghymru

Ddechrau 2025, nododd [penawdau](#) amlwg ostyngiad blynyddol sylweddol mewn prisiau tai yng Ngwynedd, gyda [Mynegai Prisiau Tai'r Principality](#) yn dangos gostyngiad o 12.4% yn chwarter olaf 2024. Priodolwyd y dirywiad hwn yn bennaf i orfodi premiwm y dreth gyngor o 150% ar ail gartrefi a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023 a chyfyngiadau cynllunio [Erthygl 4](#) a gyflwynwyd ym mis Medi 2024. Erbyn chwarter cyntaf 2025, cofnododd yr un mynegai adferiad, gyda thwf yn codi i dros 4.9%, ac yna roedd gostyngiad dilynol i -7.1% yn y data diweddaraf (Ch2 2025). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd mesur misol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio o uchafbwynt o +9.8% i isafswm o -5.1%, gweler **Ffigur 23**.

Mae'r cyfryngau'n aml yn cyfeirio at fynegai'r Principality oherwydd ei fod yn cael ei gyhoeddi'n fwy prydlon na mesur y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan ddarparu cipluniau mwy amserol o farchnad dai Cymru. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar ddata'r Principality, gan gynnwys maint sampl llai a'r defnydd o dechnegau addasu cymysgedd sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir ym Mynegai Prisiau Tai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.⁵³

⁵³ Mae cymariaethau manylach ac esboniadau manylach o'r fethodoleg ar gael ar [wefan.gov.uk](https://www.wefan.gov.uk).

Ffigur 23: Twf blynyddol mewn prisiau tai (%) yng Ngwynedd fel y'i mesurir gan HPI Cymdeithas Adeiladu'r Principality a HPI 2021-2025 yr ONS



Ffynhonnell: ONS/Y Gofrestrfa Dir a Chymdeithas Adeiladu'r Principality

Gall data twf prisiau tai rhanbarthol, fel rhai Gwynedd, amrywio'n sylweddol o un mis i'r llall neu o un chwarter i'r llall, yn enwedig ar lefel Awdurdod Lleol. Mae'r amrywiadau hyn yn aml yn adlewyrchu'r nifer cymharol isel o drafodiadau gwerthu mewn rhai ardaloedd, sy'n gallu gwneud i'r ffigurau ymddangos yn fwy anwadal. Fel y nodwyd yn y [datganiad Mynegai Prisiau Tai](#): 'Dylid dadansoddi ardaloedd daearyddol sydd â nifer isel o drafodiadau gwerthu yng nghyd-destun eu tueddiadau tymor hirach yn hytrach na chanolbwyntio ar symudiadau misol.' Er mwyn asesu'n gywir a yw premiymau'r dreth gyngor yn effeithio ar brisiau tai, mae'n fwy priodol cynnal dadansoddiad dros gyfnod hirach.

Premiymau'r Dreth Gyngor a Phrisiau Tai Rhanbarthol

Ers 2017-18, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru'r pŵer i godi premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi. Yn 2023, cynyddodd y premiwm uchaf a ganiateir ar gyfer eiddo o'r fath o 100% i 300%. Mae'r tabl isod yn dangos premiymau'r dreth gyngor a ddewiswyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ail gartrefi ym mhob blwyddyn ers 2017-18.

Tabl 2: Premiwm y dreth gyngor a godir gan Awdurdodau Lleol ar gyfer ail gartrefi 2017-18 i 2024-25

Blwyddyn	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Ynys Môn	25	25	35	35	35	50	75	100
Gwynedd		50	50	50	100	100	150	150
Conwy			25	25	25	25	50	100
Sir Ddinbych				50	50	50	50	100
Sir y Fflint	50	50	50	50	50	50	100	100
Wrecsam								
Powys	50	50	50	50	50	50	75	75
Ceredigion	25	25	25	25	25	25	25	100
Sir Benfro	50	50	50	50	50	100	100	200
Sir Gaerfyrddin								50
Abertawe					100	100	100	100
Castell-nedd Port Talbot								
Pen-y-bont ar Ogwr								100
Bro Morgannwg								100
Rhondda Cynon Taf								100
Merthyr Tudful								100
Caerffili								
Blaenau Gwent								
Torfaen								
Sir Fynwy								100
Casnewydd								
Caerdydd								100


Sylwch: Mae bwlch gwag yn dynodi na ddefnyddiwyd premiwm yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Ffynhonnell: Tîm Ail Gartrefi Llywodraeth Cymru

Ar sail yr wybodaeth hon, gellir dosbarthu awdurdodau lleol yn dri chategori penodol yn ôl lefel y premiwm a godir ar ail gartrefi. **Porffor:** Yn dangos defnydd cadarn o bremiymau ail gartrefi; y ddau awdurdod lleol hyn yw'r unig rai sy'n codi premiwm uwch na 100%. **Gwyrdd:** Yn cynrychioli gweithrediad cymedrol, gydag ardaloedd sydd wedi codi bremiymau dros nifer o flynyddoedd. **Oren:** Yn cyfeirio at ddefnydd cyfyngedig o bremiymau ail gartrefi, yn benodol mewn ardaloedd nad oeddent yn codi premiwm tan flwyddyn ariannol 2024-25.

Mae dadansoddiad o dwf prisiau tai yn y categorïau hyn yn datgelu bod cynnydd o 53% mewn prisiau tai ers 2017 yn yr awdurdodau sy'n gwneud ychydig o ddefnydd o bremiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi. Mae hyn yn cymharu â 44% o dwf yn y categori canolig a 40% yn y categori uchel, gweler **Ffigur 24**.

Ffigur 24: Mynegai Prisiau Tai Ionawr 2017 - Ebrill 2025 drwy ddefnyddio premiwm y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi (Ionawr 2017 = 100)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol / Y Gofrestrfa Tir

Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu rhywfaint o dystiolaeth y gallai defnyddio premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi fod wedi cyfrannu at dwf is mewn prisiau tai. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl bod cyfradd arafach y cynnydd yn y rhanbarthau hynny sy'n gweithredu'r premiymau yn adlewyrchu dylanwadau eraill, fel tueddiadau enillion, yr hinsawdd economaidd ehangach, newidiadau demograffig neu bolisiau eraill yn y meysydd hynny. Mae'r darlun tymor hirach yn dangos bod twf prisiau tai yng Nghymru ers datganoli wedi mwy na chadw i fyny â thwf ledled y DU yn gyffredinol.

Newid yn yr Hinsawdd

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu economi Cymru, y DU a'r byd. Mae'n debygol o effeithio ar yr economi, yn enwedig dros y tymor hir.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi diweddarau ei hamcangyfrifon o gostau difrod posibl y newid yn yr hinsawdd.⁵⁴ Mae'r rhain wedi cynyddu oherwydd bod tebygolrwydd uwch o newidiadau uwch yn y tymheredd a thebygolrwydd cynyddol y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau mwy difrifol ar economïau. Mae'r cynnydd mwy mewn difrod ar dymheredd o 3°C o'i gymharu â 2°C yn rhannol oherwydd bod y tymheredd byd-eang presennol eisoes bron â chyrraedd senario o dan 2°C.

O dan senario lle mae tymheredd byd-eang yn codi llai na 2°C, amcangyfrifir bod economi'r DU 3.3% yn llai nag amcanestyniad llinell sylfaen dim newid yn yr hinsawdd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. O dan senario lle mae tymheredd byd-eang yn codi llai na 3°C, amcangyfrifir y bydd difrod sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn lleihau lefel cynnyrch domestig gros y DU o 8% erbyn dechrau'r 2070au. Mae hyn dri phwynt canran yn fwy nag yn amcanestyniad Risgiau Cyllidol a Chynaliadwyedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn 2024.

Er y gall y llywodraeth gymryd camau lliniaru a cheisio addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ychydig iawn y gall y DU ei wneud i leihau costau difrod y newid yn yr hinsawdd yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cael eu sbarduno gan effaith allyriadau byd-eang ac i ba raddau y mae'r allyrwyr cymharol fwy yn cymryd camau gweithredu ar eu hallyriadau.

Mae angen ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon net a newid y ffordd rydym yn gweithredu er mwyn dod yn llai dibynnol ar danwydd ffosil. Mae'r newid i economi carbon isel yn creu cyfleoedd yn ogystal â heriau. Mae technoleg newydd ac arloesi yn golygu bod y trawsnewidiad nid ddim on yn gost, ond yn fath gwahanol o economi ac arbedion costau mewn rhai sectorau.

Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei gyngor diweddaraf yng Nghymru⁵⁵, gan nodi llwybr ar gyfer datgarboneiddio mewn gwahanol sectorau wrth weithio tuag at gyrraedd Sero Net erbyn 2050. Mae'r llwybr wedi'i rannu'n Gyllidebau Carbon 5 mlynedd gyda'r gyllideb nesaf, Cyllideb Garbon 3, yn rhedeg o 2026 i 2030, Cyllideb Garbon 4 yn rhedeg o 2031 i 2035 ac yn y blaen hyd at 2050, pan fo'r DU, a Chymru, wedi ymrwymo i gyrraedd Sero Net.

Mae lefel y gostyngiad sydd ei angen, a'r ymyriadau sydd eu hangen, yn amrywio'n sylweddol yn ôl sector, yn yr un modd â faint o bŵer uniongyrchol sydd gan

⁵⁴ Gweler y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (2025 [Fiscal risks and sustainability - Gorffennaf 2025](#))


⁵⁵ [Wales' Fourth Carbon Budget - Climate Change Committee](#)

Lywodraeth Cymru, gyda rhai sectorau wedi'u cadw'n ôl i San Steffan i raddau helaeth, rhai wedi'u datganoli i raddau helaeth, ac eraill yn gymysg. Mae'r camau sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net, a byw o fewn ein Cyllidebau Carbon, hefyd yn dod o gymysgedd o ddewisiadau gan y llywodraeth, y sector preifat ac unigolion a'u hymddygiad.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amcangyfrif mai cost net Sero Net yng Nghymru fydd oddeutu 0.4% o gynnyrch domestig gros y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyd eu llwybr. Mae llawer o'r buddsoddiad hwn, yn enwedig mewn cyflenwi trydan, Cerbydau Trydan, a phympiau gwres, yn cynhyrchu arbedion gweithredol wrth ddisodli technolegau tanwydd ffosil aneffeithlon gyda dewisiadau trydan mwy effeithlon. Bydd y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau hynny'n gyfalaf preifat.

Dros y Gyllideb Garbon nesaf (CG3), daw ychydig dros 50% o'r gostyngiad mewn allyriadau yn llwybr y Pwyllgor Newid Hinsawdd o gyflenwadau ynni, gyda'r ail ostyngiad mwyaf yn dod o drafnidiaeth, gweler **Ffigur 25**.


Ffigur 25: Dosbarthiad y lleihad mewn allyriadau yng Nghymru yn y llwybr cytbwys, yn ôl cyllideb carbon



Ffynhonnell: [Wales' Fourth Carbon Budget - Climate Change Committee](#)

Yn ystod rhan fawr o'r llwybr cytbwys, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn rhagweld y bydd angen buddsoddiad ymlaen llaw (gwariant cyfalaf) ond mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan lai o gostau rhedeg (gwariant gweithredol) gyda chyfanswm y llwybr yn arwain at arbedion net ddechrau'r 2040au, gweler **Ffigur 26**.

Ffigur 26: Costau ac arbedion ychwanegol yn y llwybr cytbwys i Gymru (£bn y flwyddyn)



Ffynhonnell: [Wales' Fourth Carbon Budget - Climate Change Committee](#)

Ar gyfer rhai ymyriadau, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn disgwyl arbedion mwy yn gynt. Er enghraifft, mae costau rhedeg cerbydau trydan yn is yn barod, ar gyfartaledd, na cheir petrol neu ddisel, ac o 2026 ymlaen mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn rhagweld y byddant hefyd yn rhatach i'w prynu, sy'n golygu y bydd gwariant cyfalaf a chostau rhedeg yn is, gan wneud y newid i gerbydau trydan yn ddewis rhatach a gwyrddach i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

Mae cyd-fanteision eraill i'r newid i Sero Net hefyd, yn enwedig gwell ansawdd aer o gerbydau trydan a dewisiadau trydan eraill yn lle tanwydd ffosil, sy'n cefnogi nodau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel canlyniadau iechyd gwell. Er bod angen ymdrechion byd-eang i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, nad ydynt o dan ein rheolaeth ni'n uniongyrchol, mae llwybr diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn awgrymu bod enillion uniongyrchol posibl yn deillio o ddatgarboneiddio ein heconomi, ac mae dadansoddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol yn tynnu sylw at gostau diffyg gweithredu.

Mae data'r Pwyllgor Newid Hinsawdd hefyd yn dangos bod cost buddsoddi yn y newid i Sero Net yn amrywio o un rhan o'r DU i'r llall. Mae dadansoddiad cynnar o'r llwybr diweddaraf yn awgrymu y gallai cyfanswm y gost gyfalaf fesul person yng

Nghymru o 2026 i 2050 fod oddeutu £12,100, o'i gymharu ag oddeutu £9,400 yng ngweddill y DU, wedi'i sbarduno'n bennaf gan wahaniaethau mewn amaethyddiaeth, defnydd tir a diwydiant. Os bydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo'r gost ychwanegol hon (tua 30%), gallai hyn arwain at ganlyniadau cyllidol.

Y Farchnad Lafur

Mae'r farchnad lafur, ac yn enwedig cyflogaeth, wedi bod yn faes llwyddiant economaidd mawr i'r DU ac i Gymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r adran nesaf yn dangos hyn yn ogystal â chynnig rhywfaint o ddadansoddiad ar rai o'r tueddiadau mwy diweddar.

Mae'r adran ar y farchnad lafur yn canolbwyntio ar y prif ddangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd. Yn draddodiadol, yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fu'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosyddion hyn. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch pa mor gywir a dibynadwy yw'r Arolwg o'r Llafurlu, a nodwyd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru y llynedd.⁵⁶ O ganlyniad, mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru⁵⁷ yn argymhell y dylid hefyd ystyried y tueddiadau a welir mewn ffynonellau data eraill ar y farchnad lafur. Y ffynonellau ychwanegol hyn yw:

- yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (APS),
- Cyfrif Talu Wrth Ennill (TWE) CThEF o nifer y cyflogeion ar gyflogresi TWE, a
- Cyfrif yr Hawlwyr, sef nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra (Lwfans Ceisio Gwaith neu'r rheini sy'n cael Credyd Cynhwysol, oherwydd diweithdra).

Gyda'i gilydd, mae'r setiau data hyn yn rhoi darlun cyflawn o sut mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi esblygu dros y blynnyddoedd diwethaf ac ers Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu disodli'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ag Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid (TLFS). Disgwylir i'r newid i'r Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid ddechrau ddiwedd 2026 neu yn 2027.⁵⁸ Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ddiweddarach *Datblygiadau mewn Data Economaidd*.

Cyflogaeth

Dangosir data cyflogaeth yr Arolwg o'r Llafurlu a data cyflogaeth yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ar gyfer Cymru dros gyfnodau tebyg yn **Ffigur 27**. Dros y cyfnod 2004 i 2021, mae cyfradd gyflogaeth yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru wedi bod yn is neu'n debyg i gyfradd gyflogaeth yr Arolwg o'r Llafurlu dros gyfnodau tebyg. Fodd bynnag, ers tua 2021, mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn dangos cyfradd cyflogaeth uwch a mwy sefydlog yng Nghymru nag y mae'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae cyfradd cyflogaeth yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth wedi bod yn sylweddol uwch na chyfradd yr Arolwg o'r Llafurlu yn ystod 2024, gan adrodd cyfradd cyflogaeth sy'n gymharol uchel o'i chymharu â'r cyfraddau dros yr 20 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn nodi

⁵⁶ [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#)


⁵⁷ Gweler [Y Farchnad Lafur | Cofnod Cywir](#)

⁵⁸ [Labour market transformation – update on progress and plans - Office for National Statistics](#)

bwllch o ddau bwynt canran i gyfradd cyflogaeth y DU. Roedd y bwllch tua phum pwynt canran ddiwedd y 1990au (ni ddangosir data'r 1990au oherwydd cyfyngiadau ar ddata).

Mae'r data yn hwn yn ymwneud â'r dangosydd llesiant cenedlaethol canlynol: (21) canran y bobl mewn cyflogaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Ffigur 27: Cyfradd cyflogaeth (5%) yng Nghymru 16 i 64 oed, mis Rhagfyr 2004 i fis Mawrth 2025



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir. Mae data'r Arolwg o'r Llafurlu a gyflwynwyd yn gofnod o gyfnod treigl o 12 mis felly mae'n gyson â data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol


Y cynnydd mewn cyflogaeth, o ran y gyfradd a'r lefel, yw un o'r prif lwyddiannau economaidd ers datganoli. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod cyflogaeth y rheini rhwng 16 a 64 oed yn y DU wedi cynyddu o 27.8m yn y 12 mis o fis Ionawr 2004 i 31.6m yn y 12 mis o fis Ebrill 2024. Yng Nghymru, mae hyn wedi cynyddu o 1.29m i 1.41m dros yr un cyfnod. Yng Nghymru a'r DU, cyflawnwyd hyn drwy gyfradd gyflogaeth gynyddol, yn ogystal â thwf yn y boblogaeth dros y cyfnod. Fodd bynnag, yng Nghymru, cyflawnwyd tua dwy ran o dair o'r gwelliant hwn dros y cyfnod hwnnw drwy gyfradd gyflogaeth gynyddol, ond yn y DU mae hyn yn nes at draean, gyda chyfran fwy o'i chyfradd gyflogaeth gynyddol yn cael ei sbarduno gan gynydd yn y boblogaeth.

Mae'r patrwm cyflogaeth cymharol sefydlog sydd i'w weld yn nata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth drwy 2024 hefyd yn cael ei ailadrodd fwy neu lai yng nghyfrif Talu Wrth Ennill CThEF o weithwyr cyflogedig (ac eithrio gweithwyr hunangyflogedig) ac mae'n cael ei amlygu yn Ffigur 28. Mae'r ffigur hefyd yn dangos bod y duedd yn nifer y gweithwyr wedi'i chysoni'n agos rhwng Cymru a'r DU. Mae data Talu Wrth Ennill yn fwy amserol na data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac nid yw'n seiliedig ar ffynonellau'r arolwg. Mae'r arolwg yn cael ei gyflwyno fel cyfartaledd treigl 12 mis. Felly, mae'r data Talu Wrth Ennill yn canfod newidiadau mewn patrymau cyflogaeth yn gyflymach na'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae'r data Talu Wrth Ennill diweddaraf yn dangos cromlin sy'n gwanhau yn 2025 gyda cholledion swyddi yn cyflymu yn yr ail chwarter.

Mae arolygon busnes yn awgrymu bod y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, y gostyngiad yn y trothwy cyfraniadau yswiriant gwladol a'r cynnydd sylweddol yn y cyflog byw cenedlaethol, i gyd yn dod i rym o fis Ebrill 2025 ymlaen, yn ogystal â phryderon cyflogwyr ynghylch deddfwriaeth arfaethedig ynghylch hawliau gweithwyr yn cyfrannu at golli swyddi.⁵⁹ Yn fwy cyffredinol, mae'r cyd-destun economaidd yn weddol wael wrth i'r economi ei chael hi'n anodd torri'n rhydd o'r patrwm o gynhyrchiant isel ers yr argyfwng ariannol. Mae data Talu Wrth Ennill yn dangos mai mewn diwydiannau sector preifat yn unig y mae swyddi'n cael eu colli. Yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2025, roedd swyddi Talu Wrth Ennill yn y sector preifat i lawr 1.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae colledion swyddi wedi bod yn fwyaf amlwg mewn gweithgareddau sy'n talu'n gymharol isel. Er enghraifft, ym maes lletygarwch roedd nifer y gweithwyr Talu Wrth Ennill bron i 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Yn wahanol i ddatblygiadau yn y sector preifat, mae nifer y swyddi Talu Wrth Ennill yn y sector cyhoeddus wedi parhau i gynyddu yng Nghymru ac yn y DU.

⁵⁹ Am ragor o wybodaeth gweler Ray-Chaudhuri, S a Xu, X. (2025). Combined impact of minimum wage and tax increases may reduce opportunities for young people [Sylw] y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Ar gael yn: <https://ifs.org.uk/articles/combined-impact-minimum-wage-and-tax-increases-may-reduce-opportunities-young-people>

Ffigur 28: Mynegai o weithwyr cyflogedig (2014=100), mis Rhagfyr 2014 i fis Mehefin 2025




Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Diweithdra

Mae cyfradd diweithdra'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru wedi olrhain cyfradd y DU yn agos am yr 20 mlynedd diwethaf (gweler **Ffigur 29**). Mae data sy'n cofnodi cyfran y gweithlu sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn cadarnhau pa mor agos yw'r newidiadau mewn diweithdra yn y ddwy wlad gan eu bod, yn y bôn, yr un fath (gweler **Ffigur 30**). Ar y cyfan, mae'r gyfradd diweithdra wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn y DU ac yng Nghymru, er gwaethaf y dirwasgiad yn 2008. Ar ddechrau'r cyfnod (2004) roedd y gyfradd diweithdra'n tua 5%, neu ychydig yn is na hynny, gan ddisgyn i tua 4%, neu ychydig yn is na hynny, yn y cyfnod diweddar. Mae'r dirwasgiad economaidd yn 2008 wedi cael llawer mwy o effaith uniongyrchol a pharhaol ar ddiweithdra na COVID-19.


Ffigur 29: Cyfradd diweithdra (%) pobl 16 oed a hŷn, mis Rhagfyr 2004 i fis Mawrth 2025



Sylwch: Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 30: Cyfradd yr hawlwyr fel canran o'r gweithlu, mis Rhagfyr 2014 tan fis Gorffennaf 2025




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan fod y sefyllfa o ran diweithdra yn debyg iawn yng Nghymru a'r DU, mae'n dilyn bod y gyfradd gyflogaeth is yng Nghymru, a nodwyd yn gynharach, yn cael ei

sbarduno gan gyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw'r gyfran o bobl o oedran gweithio nad ydynt yn gweithio nac yn chwilio am waith. Roedd adroddiad y llynedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o anweithgarwch ac mae'r dadansoddiad yn dal yn berthnasol.⁶⁰

Yng Nghymru, gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yn raddol drwy'r 2010au (gweler Ffigur 31), gan gyfateb â'r gwelliant yn y gyfradd cyflogaeth a nodwyd yn gynharach. Yn fwy diweddar, yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2025, y gyfradd anweithgarwch economaidd oedd 23.9%. Roedd hyn 2.3 pwynt canran yn uwch na chyfradd y DU, gostyngiad amlwg yn y bwlch a oedd yn bodoli ddiwedd y 1990au (ni ddangosir data'r 1990au oherwydd cyfyngiadau ar ddata) ac yn is nag ar ddechrau'r gyfres o Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2004 (3.4 pwynt canran).

Ffigur 31: Cyfradd anweithgarwch economaidd (%) pobl ifanc 16-64 oed, Rhagfyr 2004 i Fawrth 2025



Sylwch: Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir.

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol)


O ran y rhesymau dros anweithgarwch economaidd, danghosir Ffigur 32 salwch tymor hir fu prif achos anweithgarwch economaidd yng Nghymru ers i gofnodion yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ddechrau. Salwch tymor hir hefyd yw prif achos anweithgarwch economaidd yng ngwledydd a rhanbarthau eraill y DU. Ar ben hynny, mae wedi cynyddu'n sylweddol ers 2019, gan gyfrif am gyfran gynyddol o gyfanswm y boblogaeth oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar. Nid yw'n glir ai anhawsterau mewn sicrhau mynediad at y gwasanaeth iechyd yn y DU sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn. Mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn awgrymu 'nad oes perthynas glir ar lefel leol rhwng newidiadau yn amseroedd aros y GIG (yn

⁶⁰ Ar gael yn [Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru 2024](#)

Lloegr) a newidiadau mewn hawliadau budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd oedran gweithio.⁶¹ Mae hyn hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i Gymru hefyd.

Yn wahanol i gyfran y rhai sydd wedi bod yn anweithgar oherwydd salwch tymor hir, bu gostyngiad amlwg yn nifer y bobl sy'n anweithgar oherwydd eu bod yn gofalu am deulu/cartref. Mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng hyn â'r gostyngiad mewn cyfraddau geni a gwell lefelau cymwysterau sy'n annog mwy i gymryd rhan yn y llafurlu. Dim ond un rheswm y gall person anweithgar ei nodi dros fod yn economaidd anweithgar. Felly, gall person anweithgar newid ei reswm dros fod yn economaidd anweithgar neu fod â mwy nag un rheswm. Mae ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid sy'n defnyddio data hydredol yn awgrymu bod hyn wedi bod yn ffactor o ran pam fod mwy yn nodi salwch tymor hir fel rheswm dros anweithgarwch economaidd.⁶²

Ffigur 32: Y prif reswm dros anweithgarwch economaidd yng Nghymru 16 i 64 oed (%), ac eithrio myfyrwyr, mis Rhagfyr 2004 - mis Mawrth 2025



Sylwch: Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir. Mae 'Arall' yn cynnwys gweithwyr sy'n sâl dros dro a gweithwyr sy'n methu dod o hyd i gyflogaeth.

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁶¹ Gweler [The relationship between NHS waiting lists and health-related benefit claims | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#)

⁶² [The rise in economic inactivity among people in their 50s and 60s | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#)


Rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur

Rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (mis Mawrth 2025) ar gyfer cyfradd cyflogaeth 16 oed a hŷn y DU yw 60.2%⁶³ erbyn 2029, i lawr o fan cychwyn o 60.5% (chwarter 4, 2024). Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn priodoli traean y gostyngiad o un pwynt canran a ddisgwylir yn bennaf i boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n rhoi pwysau ar gyfranogiad yn y llafurlu. Disgwylir hefyd i gyfraniadau yswiriant gwladol uwch cyflogwyr, a ddaw i rym ym mis Ebrill 2025, leihau cyflogaeth ychydig.⁶⁴ Gellir disgwyl gweld yr un patrwm am i lawr yng Nghymru, ac mae hynny'n debygol o fod ychydig yn fwy amlwg o ystyried proffil hŷn poblogaeth Cymru.

Er bod disgwyl i'r gyfradd cyflogaeth ostwng rhywfaint drwy weddill y ddegawd, disgwylir i nifer y bobl mewn gwaith gynyddu (h.y. mae nifer y bobl mewn gwaith yn cynyddu'n arafach nag y rhagwelir y bydd y boblogaeth 16 oed a hŷn yn cynyddu). Yn y DU, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i gyfanswm y rheini mewn cyflogaeth gynyddu o 1.2 miliwn o bobl rhwng 2024 a 2029 (gweler Ffigur 33). O ystyried bod newidiadau mewn cyflogaeth yng Nghymru'n dilyn newidiadau'r DU yn agos, mae hyn yn awgrymu y byddai 'cyfran' Cymru o'r cynnydd mewn cyflogaeth yn oddeutu 50,000 o bobl erbyn 2029. Mae hyn 20,000 yn fwy na'r hyn a awgrymwyd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru y llynedd. Mae'r diwygiad yn ganlyniad yn bennaf i benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ailbwysoli'r Arolwg o'r Llafurlu i gyd-fynd ag amcangyfrifon poblogaeth a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, ynghyd ag amcanestyniadau poblogaeth i'r dyfodol wedi'u diweddarau, yn hytrach nag i berfformiad gwell y farchnad lafur.

Yn rhagolwg mis Mawrth 2025 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, oherwydd diffyg manylion a chyfyngiadau amser, ni wnaeth y Swyddfa ymgorffori effeithiau cyflogaeth posibl sy'n deillio o Gynllun Llywodraeth y DU i Wneud i Waith Dalu Ffordd.⁶⁵ Am yr un rhesymau i raddau helaeth, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i effeithiau posibl y diwygiadau lles a nodir yn y Papur Gwyrdd Llwybrau at Waith ar gyflogaeth.⁶⁶ Gollyngwyd llawer o'r mesurau yn y Papur Gwyrdd ers hynny ond bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno serch hynny. Disgwylir y bydd yr effeithiau ar gyflogaeth sy'n deillio o'r mesurau hyn yn cael eu nodi yn rhagolwg nesaf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyflogaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Hydref y DU 2025.

Ffigur 33: Cyflogaeth pobl 16 oed a hŷn yn y DU, 2019 i 2029



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, OBR

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn rhagweld cyfradd diweithdra'r DU. O ystyried graddau'r gydberthynas rhwng cyfraddau diweithdra'r DU a Chymru – fel y dangosir yn **Ffigur 29** ac yn **Ffigur 30** - mae'n debygol iawn y bydd y ddau'n parhau i ddilyn ei gilydd dros gyfnod y rhagolwg. Yn ogystal, bydd unrhyw fesurau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar ddiweithdra hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Yn ôl rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bydd y gyfradd ddiweithdra, a oedd yn 4.3% ar gyfartaledd yn 2024, yn 4.5% eleni gyda'r cynnydd cymedrol yn adlewyrchu'r galw gwannach am lafur oherwydd cyd-destun economaidd gwan iawn ar y cyfan, yn ogystal ag effaith costau llafur uwch i gyflogwyr. Disgwylir i'r gyfradd diweithdra ostwng yn raddol dros weddill cyfnod y rhagolwg, gan sefydlogi ar 4.1% yn 2028 a 2029.

Nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolwg ar anweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae'n darparu rhagolwg ar gyfer y gyfradd gyfranogi neu'r gyfradd gweithgarwch economaidd (cyfanswm cyflogaeth a diweithdra) ar gyfer y boblogaeth 16 oed a hŷn. Er bod hyn yn ffordd fras iawn o gael y rhagolwg ymhlyg ar gyfer cyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y boblogaeth oedran gweithio, mae dadansoddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn awgrymu y gallai gynyddu, efallai o ryw gyfran o un pwynt canran, dros gyfnod y rhagolwg. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl mai salwch hirdymor fydd y prif reswm dros y cynnydd parhaus mewn anweithgarwch economaidd. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o gael ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad pellach yn y nifer sy'n nodi gofalu am deulu/cartref fel y rheswm dros anweithgarwch economaidd gan adlewyrchu effeithiau cyfraddau geni is a mesurau polisi i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant.

Masnach Ryngwladol

Mae allforio rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru ac mae mewnforyn yn darparu mewnbwn i fusnesau, a nwyddau i ddefnyddwyr, gan gadw prisiau i lawr a chynyddu'r dewis i ddefnyddwyr fel rheol. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cwmnïau a oedd yn masnachu'n rhyngwladol rhwng 2011 a 2022, 35.4% yn fwy cynhyrchol o safbwynt deilliant fesul gweithiwr na chwmnïau nad oeddent yn gwneud hynny.⁶⁷

Nododd [Diweddariad Masnach Fyd-eang UNCTAD \(Gorffennaf 2025\)](#) gynnydd o 1.5% mewn masnach fyd-eang yn chwarter cyntaf 2025, gyda disgwyl i'r twf gyflymu i 2% yn yr ail chwarter. Er bod masnach fyd-eang mewn nwyddau a gwasanaethau yn dal yn gryf yn ystod hanner cyntaf 2025, mae ansicrwydd yn parhau i fod ynghylch polisi, tensiynau geowleidyddol ac arwyddion o dwf byd-eang sy'n arafu yn peri risgiau i fasnach yn ail hanner y flwyddyn. Ategir hyn gan [amcanestyniadau twf byd-eang diwygiedig yr OECD](#) o 2.9% ar gyfer 2025 a 2026, gan ragweld arafu o'r twf cymedrol o 3.3% yn 2024. Daw hyn o ganlyniad i rwystrau cynyddol ar fasnach a mwy o ansicrwydd, gyda chostau cynyddol masnachu'n sbarduno chwyddiant. Yn yr un modd, mae [rhagolygon diwygiedig](#) Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn dangos bod disgwyl i fasnach nwyddau'r Byd⁶⁸ dyfu 0.9% yn 2025, i fyny o'r gostyngiad o -0.2% a ragwelwyd ym mis Ebrill ond i lawr o'r amcangyfrif o 2.7% cyn y cynnydd yn y tariffau. Mae'r uwchraddio'n bennaf oherwydd bod mewnforyn yn cael eu llwytho ymlaen llaw yn yr Unol Daleithiau, sy'n awgrymu y bydd tariffau uwch dros amser yn rhoi pwysau ar fasnach, gan ddod â thwf disgwyliedig o ran llif masnach y flwyddyn nesaf i lawr i 1.8% o 2.5% yn flaenorol.


Mae Cymru'n wlad gymharol fasnach-ddwys gydag allforion nwyddau rhyngwladol yn cyfrif am tua 23% o'r allbwn (cynnyrch domestig gros) yn 2023⁶⁹, gweler **Ffigur 34**. Mae hyn yn gyson uwch nag unrhyw wlad yn y DU neu ranbarth yn Lloegr, ac ymhell uwchlaw'r DU (15%). Er bod llawer o fanteision economaidd i fod yn agored i economïau eraill, gan ehangu mynediad i farchnadoedd y tu hwnt i rai domestig, mae hefyd wedi golygu bod Cymru efallai wedi elwa yn ystod cyfnodau pan oedd masnach fyd-eang yn agor. Fodd bynnag, er bod hyn wedi dod â chyfleoedd i economi Cymru, mae hefyd wedi arwain at risgiau, gyda Chymru efallai'n fwy agored na rhannau eraill o'r DU i siociau economaidd negatif o ganlyniad i newidiadau mewn perthnasoedd masnachu nwyddau.

⁶⁷ [ONS Trade and Productivity in British firms 2005 to 2022](#)

⁶⁸ Mae allforion nwyddau'n cynnwys nwyddau y mae eu perchnogaeth economaidd yn newid o breswilydd i un nad yw'n breswilydd ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau canlynol: nwyddau o dan fasnachu, aur anariannol, a rhannau o deithio, adeiladu, a nwyddau a gwasanaethau'r llywodraeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn unman arall (n.i.e.).

⁶⁹ [ONS Regional gross domestic product: all ITL regions \(table 5\) Subnational trade timeseries - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Ffigur 34: Allforion Nwyddau Gwledydd y DU fel cyfran o GDP, 2016-2023



Ffynhonnell: Cynnyrch Domestig Gros Is-genedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyfras Amser Masnachu Is-genedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Masnach mewn Nwyddau)

At ei gilydd, nwyddau sy'n dominyddu allforion Cymru, gan gyfrif am tua 67% o gyfanswm allforion Cymru yn 2023, sy'n llawer uwch na'r 46% ar gyfer y DU. Mae allforion gwasanaeth yn cyfrif am oddeutu 11% o allbwn Cymru (cynnyrch domestig gros), sy'n is na'r DU (17%), ac sydd hefyd yn is na'r Alban ar 17% a Lloegr ar 18%, ond ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon ar 10%. Mae tariffau'n tueddu i gael llai o effaith ar wasanaethau na mathau eraill o reoliadau, oherwydd bod tariffau ond yn cael eu codi'n uniongyrchol ar nwyddau.

Masnach Cymru-UDA

Mae cyfran gymharol uwch o allforion Cymru yn nwyddau sy'n awgrymu y gallai newidiadau polisi masnach gael effaith anghymesur ar Gymru, gan gynnwys y tariffau a osodwyd yn ddiweddar ar fewnforion i'r Unol Daleithiau. Nwyddau yw tua dwy ran o dair o allforion Cymru i'r Unol Daleithiau, o'i gymharu ag oddeutu traean ar lefel y DU.⁷⁰

Mae natur newidiol iawn ac anwadal y polisiâu newydd a gyflwynir gan yr Unol Daleithiau wedi'i gwneud yn heriol i wneud dadansoddiad ystyrlon o'r effeithiau posibl. Er bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi modelu effeithiau posibl y tariffau hyn, mae'r senarios a fodelwyd yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad ar hyn o bryd, felly ychydig o wybodaeth yn unig maent yn ei gynnig. Fodd bynnag, mae'n bosibl casglu y byddai tariffau uwch yn yr Unol Daleithiau yn lleihau dwysedd masnachu economi Cymru ac y bydd llai o gynhyrchiant ac allbwn economaidd dros y tymor hir. Nid ydym yn sicr ar hyn o bryd beth fydd graddfa hyn. Disgwylir i'r cytundeb rhwng y DU a'r Unol Daleithiau fod yn sylfaenol bwysig i liniaru effaith

⁷⁰ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Subnational Trade (2023)


bosibl y tariffau hyn ar Gymru, o ystyried bod cyfran sylweddol o fasnach Cymru a'r Unol Daleithiau mewn nwyddau sydd wedi'u heithrio o'r tariffau ar hyn o bryd (neu'n wynebu cyfraddau ffafriol oherwydd y cytundeb a wnaed).

Yn ogystal ag effaith uniongyrchol tariffau, disgwylir y bydd gwyriad masnach sylweddol hefyd, yn enwedig wrth i Tsieina geisio ailgyfeirio ei hallforion i ffwrdd o'r Unol Daleithiau. Mae amcangyfrifon Sefydliad Masnach y Byd yn rhagweld y bydd cynnydd o rhwng 4% a 9% yn allforion nwyddau Tsieina ar draws pob rhanbarth y tu allan i Ogledd America wrth i fasnach gael ei hailgyfeirio.⁷¹


Mae Cymru'n parhau i fod wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi'r DU (gweler **Ffigur 35**). Mae'r data diweddaraf am fasnach rhwng un busnes a'r llall (2022) yn dangos bod 47% o werthiannau busnesau yng Nghymru i fusnesau eraill yng Nghymru, tra bod 33% i weddill y DU. Mae gwerth eitemau a brynir o weddill y DU (42%) yn fwy na gwerth rhai gan fusnesau yng Nghymru (24%). Mae'r eitemau a werthir ac a brynir rhwng busnesau yng Nghymru a'r DU yn sylweddol fwy na thrafodion rhyngwladol.

Ffigur 35: Cyrchfannau a tharddiad Gwerthiannau a phryniannau Cymru, 2022

Gwerthiannau (2022)



Pryniannau (2022)



Sylwch: Nid yw hyn yn cynnwys pob eitem a werthir gan fusnesau yng Nghymru gan y bydd rhai'n cael eu gwerthu i ddefnyddwyr. Nid yw'r arolwg chwaith yn cynnwys rhai sectorau penodol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2024) Arolwg Masnach Cymru: 2022

Yn rhyngwladol, yr UE yw marchnad fwyaf Cymru ar gyfer allforion o hyd, gyda 56.8% o allforion nwyddau Cymru'n mynd yno yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025⁷², o'i gymharu â 48.4% ar lefel y DU. Mae'r gyfran hon wedi gostwng yn ddiweddar ac ar hyn o bryd mae ar ei lefel isaf ers 2014 (pan gyhoeddwyd data cymaradwy am y tro cyntaf). Mae hyn yn cael ei sbarduno gan y gostyngiad uwch yn ngwerth allforion i'r UE nag allforion i wledydd y tu allan i'r UE.

Mae'r ffaith bod gwledydd eraill y DU a'r UE yn parhau i fod yn gyrchfannau allforio mawr i Gymru, yn awgrymu bod daearyddiaeth ac agosrwydd at wledydd yn dal i chwarae rhan bwysig mewn masnach, yn enwedig ar gyfer nwyddau. Mae hyn yn llai

⁷¹ Rhagolwg Masnach Fyd-eang Sefydliad Masnach y Byd (Ebrill 2025)

⁷² Datganiad Technegol Rhanbarthol CThEM Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025


gwir am wasanaethau, gydag oddeutu dwy ran o dair o'r gwasanaethau sy'n cael eu hallforio o Gymru yn mynd i farchnadoedd y tu allan i'r UE yn 2023.⁷³

Perfformiad masnach Cymru dros amser

Yn dilyn cyfnod anwadal i fasnach Cymru lle cafodd effeithiau pandemig COVID-19 eu hategu gan effeithiau ymadawiad y DU â'r UE, cymerodd yn hirach i allforion nwyddau yng Nghymru (yn ogystal â'r DU) adfer na gweddill y G7. Serch hyn, gwelwyd cynnydd mawr yn 2022, a chredir ei fod yn cael ei sbarduno'n rhannol o leiaf gan gyfnod o chwyddiant uchel. Ers hynny, mae tuedd ar i lawr wedi bod yng ngwerth allforion nwyddau Cymru a'r DU drwy gydol 2023 hyd at ddechrau 2025.

Mae'r data diweddaraf yn dangos mai Cymru welodd y gostyngiad mwyaf o holl wledydd y DU yng ngwerth allforion nwyddau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, gyda gostyngiad llawer mwy yng ngwerth allforion na'r DU (-8.2% o'i gymharu â -0.8%). Mae'r duedd ar i lawr a welwyd ers dechrau 2023 yn parhau. Fodd bynnag, mae cyfradd y gostyngiad yn arafu yn ôl y data diweddaraf. Mae'r gostyngiad hwn yng ngwerth allforion nwyddau Cymru yn parhau i gael ei sbarduno gan allforion petrolewm. Heb ystyried petrolewm, gwelwyd twf o 2.8% yn allforion nwyddau Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn awgrymu y gallai petrolewm fod yn cuddio twf mewn sectorau eraill ac felly'n ystumio'r darlun cyffredinol o ran perfformiad allforio Cymru. At ei gilydd, mae perfformiad allforio Cymru nawr yn llawer is na phob gwlad arall yn y DU fel y gwelir yn **Ffigur 36**.

Ffigur 36: Gwerth allforion nwyddau yn ôl gwlad yn y DU, wedi'i fynegeo (Blwyddyn yn Gorffen Ch1 2019=100)



⁷³ ONS Subnational Trade (2023)

Yn fwy cyffredinol, mae perfformiad allforio Cymru wedi bod yn wannach yn ystod y chwarteri diwethaf o'i gymharu â'r DU, gyda gwerth allforion nwyddau Cymru ar hyn o bryd yn cymharu'n fras â lefelau 2018. Gwerth allforion yw cynnyrch maint a phris yr allforion. Dangosir perfformiad allforio cymharol wan i Gymru hefyd o ran nifer yr allforion nwyddau o Gymru, sydd tua hanner (53.1%) y lefel yr oeddent yn 2019.⁷⁴ Cafodd y gostyngiad hwn ei sbarduno'n bennaf gan ostyngiad yn swm yr allforion petrolewm, gan gyfrannu at dros dri chwarter (80.1%) o'r gostyngiad hwn.

Yn hanesyddol, mae petrolewm wedi bod yn sbardun allweddol i berfformiad allforio Cymru, gan roi hwb i werth allforion yn 2022 oherwydd y cynnydd mewn prisiau olew byd-eang, ond mae wedi bod yn gwthio gwerth allforion nwyddau Cymru i lawr ers hynny. Bu cwmp sydyn yng nghyfraniad cyffredinol petrolewm at werth allforion Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwerth a swm yr allforion yn gostwng 74.8% a 69.8% yn y drefn honno.⁷⁵ Yn ystod y cyfnod hwn, roedd allforion petrolewm yn cyfrif am tua 3.9% o gyfanswm allforion nwyddau Cymru, i lawr o 14.1% y flwyddyn flaenorol⁷⁶ ac yn is o lawer na'r penllanw o 22.2% yn 2022.

Canfu'r [Ganolfan Diwygio Ewropeaidd](#) fod dwysedd masnachu'r DU ar ddiwedd 2024 yn parhau i fod 3.5% yn is na'r lefelau cyn y pandemig, er bod cynnydd o 1% wedi bod ar draws y G7 a 3% ar draws 27 gwlad yr UE. Ar ben hynny, dim ond 1% o gynnydd sydd wedi bod yn llif masnach y DU o'i gymharu â lefelau 2019 mewn termau real, o'i gymharu â thwf o 8% yn y G7 a'r UE. Mae hyn yn tanlinellu perfformiad masnach cymharol wael y DU a Chymru ers ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i lofnodi cytundebau masnach rydd gyda thrydydd gwledydd, gan gynnwys y cytundeb rhwng y DU ac India a lofnodwyd yn ddiweddar. Er bod effeithiau amcangyfrifedig y cytundebau hyn yn gymharol isel o'u cymharu â cholli mynediad llawn i farchnad yr UE, maent yn cynnig manteision sylweddol i fusnesau yng Nghymru sy'n masnachu â'r gwledydd unigol hynny.

⁷⁴ Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019.

⁷⁵ Mae graddfa'r gostyngiad yng ngwerth a swm yr allforion petrolewm yn arwydd o newid mawr mewn allforion o'r cynhyrchion hyn. Bydd yn rhaid aros i weld a fydd hyn yn newid tymor-byr neu'n duedd fwy hirdymor. Fodd bynnag, nes bydd mwy o ddata ar gael, dylid cymryd gofal oherwydd bod y newidiadau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â gweithgarwch nifer fach o gwmnïau.

⁷⁶ Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024.

Datblygiadau mewn data economaidd

Mae'r DU yn mynd i'r afael â nifer o heriau yn ei thirwedd ystadegau economaidd, gan adlewyrchu materion strwythurol ac amodau economaidd sy'n esblygu. Mae amodau economaidd anwadal a'r angen cynyddol am ddata economaidd mwy amserol wedi cyflwyno newidiadau i seilwaith ystadegol economaidd y DU. Mae angen i ddata economaidd hefyd adlewyrchu a chofnodi'r ecosystem economaidd fwyfwy cymhleth, a natur integredig busnes a diwydiant, gyda gweithgarwch yn croesi ffiniau rhyngwladol ac i ddiwydiannau eraill.

Er bod y galw am ddata economaidd mwy amserol a chymhleth yn cynyddu, mae heriau hefyd o ran y cyflenwad, gyda llai o gyfranogiad mewn arolygon, y ffyrdd mwy traddodiadol o gasglu data. Er y gall data gweinyddol helpu gyda hyn, efallai nad oes gan y ffynhonnell ddata honno'r cyfoeth i ddarparu gwybodaeth ar draws yr holl elfennau a allai fod yn ofynnol gan ddadansoddwyr a llunwyr polisïau. Mae hefyd yn agored i newidiadau mewn polisïau a allai effeithio ar ba ddata sy'n cael ei gasglu a sut mae'n cael ei gasglu.

[Cyhoeddodd Swyddfa Ystadegau Gwladol erthygl](#) yn manylu ar eu cynlluniau ar gyfer Ystadegau Economaidd ar 26 Mehefin 2025 fel rhan o'u hymateb i [Adolygiad Devereux y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Mae'r cynllun yn nodi dull y Swyddfa Ystadegau Gwladol o adfer ymddiriedaeth a gwella ansawdd eu hystadegau economaidd a phoblogaeth graidd. Yn y cynllun, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi'r pryderon presennol ynghylch ansawdd ystadegau'r farchnad lafur ac yn darparu cynlluniau manwl ar sut maen nhw'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon hyn, fel gwneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol; gwella ansawdd ymatebion i'r Arolwg o'r Llafurlu drwy gael sampl cychwynnol mwy o faint a mwy o gapasiti cyfwelwyr maes; ailbwysoli'r Arolwg o'r Llafurlu a setiau data cysylltiedig; a throsglwyddo i'r Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid. Mae mesurau gwella ychwanegol hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar draws ffynonellau data eraill y farchnad lafur, fel yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ASHE), swyddi'r Gweithlu a'r Gofrestr Fusnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES).

Y farchnad lafur

[Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddiweddariad](#) ym mis Mai 2025 ar eu rhaglen waith i wella ansawdd amcangyfrifon ar sail yr Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r prif ymyriadau a wnaed i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag ansawdd yr Arolwg o'r Llafurlu bellach wedi bwydo drwy holl donnau'r arolwg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025. Er bod yr ymyriadau hyn wedi arwain at welliannau mewn cyfraddau a lefelau ymateb, mae'r lefelau ar gyfer rhai tonnau yn dal yn isel o'u cymharu â'r sefyllfa hanesyddol. Mae prif amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer Cymru yn dal yn anwadal ac yn rhoi darlun ansicr o'r farchnad lafur o edrych arni ar ei phen ei hun. O ystyried hyn, argymhellir o hyd y dylid ystyried y tueddiadau a ddangosir gan amrywiaeth o ffynonellau data'r farchnad lafur.

Ateb hirdymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol o hyd yw disodli'r Arolwg o'r Llafurlu â'r Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y [diweddariad diweddaraf](#) eu bod yn bwriadu rhoi rhai newidiadau ar waith i ddyluniad yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid ac y byddant yn parhau i gynnal yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid a'r Arolwg o'r Llafurlu ochr yn ochr nes bod y newidiadau i ddyluniad yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Ddiweddarau wedi'u gwreiddio'n llawn. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr ac yn adrodd ar gynnydd yn y diweddariad nesaf ar drawsnewid y farchnad lafur.

Bu gostyngiad ym maint samplau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, o ystyried hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi cael ei ail-bwysoli i gyd-fynd â'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) wedi cytuno i atal achrediad yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac i ail-ddynodi'r amcangyfrifon fel ystadegau swyddogol. Mae'n dal yn briodol defnyddio'r ystadegau hyn; fodd bynnag, dylai defnyddwyr nodi'r ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ar lefel genedlaethol, mae amcangyfrifon yn parhau i roi syniad rhesymol o'r tueddiadau yng Nghymru, yn enwedig os ydynt yn cael eu defnyddio fel rhan o gasgliad o ddangosyddion gyda ffynonellau eraill, fel gwybodaeth amser real CThEF am weithwyr cyflogedig (sydd bellach yn cael eu rhestru fel 'Ystadegau Achrededig Swyddogol'), data am swyddi yn y gweithlu, a nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer ardaloedd daearyddol llai neu is-grwpiau poblogaeth, yn llai dibynadwy ar hyn o bryd.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a dadansoddi yn y dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu datganiad o'i Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil (ARI) y bydd yn ei gyhoeddi i arwain ac annog ymchwil sy'n cefnogi llunio polisiâu ar sail tystiolaeth mewn meysydd economaidd a chyllidol.

Bydd y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn ceisio meithrin cydweithrediad â'r gymuned ymchwil a bwriedir ei adolygu o bryd i'w gilydd. Ni fydd yn alwad am gynigion cyllido ond yn ganllaw i flaenoriaethau anghenion tystiolaeth.

Mae'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn debygol o amlinellu saith thema strategol lle mae angen ymchwil bellach i lywio datblygiad polisi, penderfyniadau buddsoddi, a chynllunio hirdymor yng Nghymru, yn unol â chyfrifoldebau datganoledig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

i. **Datganoli Cyllidol a Chyllid Cyhoeddus**

Ceisir ymchwil ar drethi datganoledig, rhagolygon refeniw, cynaliadwyedd cyllidol, a'r rhyngweithio â fframwaith cyllidol y DU.

ii. **Twf Economaidd, Cynhyrchiant a Datblygu Rhanbarthol**

Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys deall sbardunau cynhyrchiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, cefnogi'r economïau sylfaenol a gwledig, a galluogi'r newid i economi carbon isel.

iii. **Deinameg y Farchnad Lafur, Sgiliau a Gwaith Teg**

Mae angen tystiolaeth ar dueddiadau cyflogaeth, effaith awtomeiddio a digideiddio, cyflogaeth ieuenctid, datblygu'r gweithlu, a rhoi'r rhaglen Gwaith Teg yng Nghymru ar waith.

iv. **Anghydraddoldeb Economaidd, Tlodi a Thwf Cynhwysol**

Ymchwil i gefnogi strategaethau economaidd cynhwysol, gan ganolbwyntio ar fesur tlodi, effaith polisi economaidd ar les aelwydydd, ac adeiladu cyfoeth cymunedol.

v. **Demograffeg, Mudo wedi'i Gynllunio, a Newid yn y Boblogaeth**

Rhai o'r meysydd o ddiddordeb yw rôl mudo mewn cynaliadwyedd poblogaeth, effeithiau economaidd mudo, strategaethau integreiddio, a modelu poblogaeth.

vi. **Gwydnwch Economaidd ar ôl Brexit a'r Pandemig**

Mae angen ymchwil i newidiadau mewn masnach a buddsoddi, siociau yn y farchnad lafur, gwerthuso mesurau adfer, a chadernid y gadwyn gyflenwi.

vii. **Data, Modelu a Gwerthuso**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu ymchwil sy'n gwella capasiti dadansoddi,

gan gynnwys datblygu modelau sy'n benodol i Gymru, defnydd arloesol o ddata, a dulliau cadarn o werthuso polisiau.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfleoedd i gydweithio ag ymchwilwyr ar unrhyw un o themâu'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ac ar faterion economaidd sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Economic.Research@gov.wales


Rhagolygon Cyllidol

Gwariant cyhoeddus

Yn ystod cyfnod cyntaf datganoli, roedd gwariant Llywodraeth y DU yn tyfu mwy na chynnyrch domestig gros. Cododd o 34.8% o gynnyrch domestig gros ym 1999-00 i uchafbwynt o 46.4% yn 2009-10, ychydig ar ôl yr Argyfwng Ariannol Byd-eang, er y byddai'r cynnydd yn y flwyddyn olaf wedi'i sbarduno'n rhannol gan y gostyngiad mewn cynnyrch domestig gros yn 2009 yn hytrach na chynnydd mewn gwariant. Ers 2009-10, mae cyfran y gwariant wedi gostwng yn raddol bob blwyddyn i 39.5% yn 2018-19, nes codi ychydig yn 2019-20 cyn y pandemig.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd gwariant y DU fel cyfran o gynnyrch domestig gros y DU yn codi o 44.7% yn 2023-24 (blwyddyn olaf yr alldro) i 45.0% yn 2025-26 (gweler **Ffigur 37**). Mae hyn 0.5 pwynt canran yn uwch na rhagolwg mis Hydref 2024, adeg y Gyllideb Ddrafft ddiwethaf. Rhagwelir y bydd gwariant fel cyfran o gynnyrch domestig gros wedyn yn gostwng ychydig i 43.9% o gynnyrch domestig gros yn 2029-30, dim ond 0.2 pwynt canran yn uwch na'r rhagolwg ym mis Hydref. Mae hyn 4.2 pwynt canran yn uwch na chyn y pandemig yn 2019-20.

Ffigur 37: Gwariant cyhoeddus y DU fel canran o GDP y DU, 1999-2030



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Cafodd rhagolwg mis Hydref 2024 ei ailddatgan gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol oherwydd diwygiadau i ddata cynnyrch domestig gros.

Ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae cynnydd mewn gwariant fel canran o gynnyrch domestig gros eleni yn cael ei sbarduno'n rhannol gan ychwanegiadau sylweddol at wariant adrannol. Wedyn, mae gostyngiadau mewn gwariant fel cyfran o gynnyrch domestig gros dros weddill

cyfnod rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn rhannol oherwydd bod gwariant adrannol yn tyfu'n arafach nag economi'r DU.

Mae'r pwysau i gynyddu gwariant cyhoeddus yn parhau ledled y DU. Heb dwf economaidd ychwanegol (gweler adran gyntaf yr adroddiad hwn) ac oni bai y gall Llywodraeth y DU newid cyllid rhwng mathau o wariant, fel o les i wariant adrannol, yna byddai angen cynhyrchu unrhyw gyllid ychwanegol naill ai drwy fenthycha neu drethu. Rhoddir crynodeb o fenthycha a threthu yn y ddwy adran nesaf.

Cyllid cyhoeddus y DU

Benthycha

Mae benthycha gan y llywodraeth yn digwydd pan fydd gwariant cyhoeddus yn fwy na refeniw (o drethi yn bennaf). Benthycodd y sector cyhoeddus £149 biliwn yn 2024-25 ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd yn benthycha £118 biliwn yn 2025-26, ar sail ei ragolygon ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn gynydd o'r £105.6 biliwn yn rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Hydref 2024, sef y rhagolwg a ddefnyddiwyd adeg y Gyllideb Ddrafft ddiwethaf. Mae elfen fawr o'r cynnydd hwn yn deillio o gynydd disgwylidig o £5.5 biliwn mewn llog dyledion (gweler yr adran isod).

Lefel fenthycha sector cyhoeddus y DU ar gyfer pedwar mis cyntaf blwyddyn ariannol 2025-26⁷⁷ oedd £60.0 biliwn, £6.7 biliwn (12.7%) yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol ym mis Mawrth 2025 (dim ond 0.1% yn uwch). Gellir dadgyfuno benthycha i ddim ond benthycha i ariannu gweithgarwch sector cyhoeddus o ddydd i ddydd (y gyllideb bresennol) a benthycha at ddibenion buddsoddi. Y diffyg yn y gyllideb ar hyn o bryd oedd £42.8 biliwn, £5.7 biliwn (15.3%) yn uwch na'r rhagolwg.

Dyled

I ariannu benthycha, gall y llywodraeth roi dyled, bondiau Llywodraeth y DU, sydd weithiau'n cael eu galw'n giltiau. Dyled gyhoeddus yw cronïad o fenthycha'r gorffennol. Mae'n adlewyrchu cyfanswm dyled y llywodraeth i'w gredydwyd. Mae dyled fel arfer yn cael ei mynegi fel canran o gynnyrch domestig gros i asesu cynaliadwyedd a'r posibilrwydd y bydd y llywodraeth yn gallu ad-dalu ei dyled. Gall cymhareb gynyddol o ddyled-i-GDP fod yn arwydd o straen cyllidol.

Mae dyled gyhoeddus y DU wedi codi 67% o'r Cynnyrch Domestig Gros dros y 25 mlynedd diwethaf, ac mae bellach ychydig o dan 100% o'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP) (gweler **Ffigur 38**). Er bod y cynnydd hwn wedi digwydd yn bennaf oherwydd y siociau economaidd a chyllidol diweddar y mae'r DU wedi'u profi dros y cyfnod hwnnw, mae bellach yn fwy agored i newidiadau mewn cyfraddau llog a chostau benthycha, yn ogystal â bod â llai o gapasiti i ddelio â siociau posibl yn y dyfodol.⁷⁸

⁷⁷ Mae'r holl ddata'n gywir ar 10 Medi 2025.


⁷⁸ I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Fiscal risks and sustainability – Gorffennaf 2025 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

Dim ond mewn dau gyfnod ers datganoli (gan gynnwys cyfnod y rhagolwg diweddaraf) y mae dyled net y sector cyhoeddus ac eithrio Banc Lloegr yn debygol o ostwng wrth i ganran y cynnyrch domestig gros ostwng dros ddwy flynedd neu fwy, ac am chwe blynedd i gyd. Dim ond mewn saith o'r 30 mlynedd y mae'n gostwng hefyd, ac nid yn ystod cyfnod y rhagolwg. Mae'r rheolau cyllidol presennol yn defnyddio rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus⁷⁹, sydd yn gostwng yn 2027-28 cyn y gofyniad am reolau cyllidol yn 2028-29.

Gan edrych ar sut mae dyled wedi cynyddu, mae dau brif gyfnod i bob pwrpas sy'n egluro'r cynnydd. Yn y tair blynedd dros yr Argyfwng Ariannol Byd-eang rhwng 2008-9 a 20210-11 cynyddodd dyled o 35 pwynt canran, gan symud o 36% o'r cynnyrch domestig gros i 71%. Yn ystod y cyfnod yr effeithiwyd arno gan COVID-19 ac yna'r argyfwng costau byw gwelwyd cynnydd o tua 10 pwynt canran yn y mesur dyled net, o 77% yn 2019-20 i 87% yn 2023-24.

Rhagwelir hefyd na fydd y ddyled yn lleihau, ni waeth a yw Banc Lloegr wedi'i eithrio ai peidio. Ychydig o newid sydd wedi bod i hyn hefyd ers rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Hydref (heb ei ddangos), gyda dyled net ac eithrio Banc Lloegr yn is yn 2024-25 ac yn uwch bob blwyddyn ar ôl hynny, a 0.9 y cant o'r GDP yn 2029-30.

Ffigur 38: Dyled y sector cyhoeddus fel canran o GDP, 1999-00 i 2029-30



Ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nodi mai dyled Llywodraeth y DU fel cyfran o gynnyrch domestig gros yw'r pedwerydd uchaf ymysg economïau datblygedig


⁷⁹ I gael rhagor o wybodaeth am y mesur hwn, gweler [Public sector net financial liabilities \(PSNFL\) - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Ewrop, a'r chweched uchaf ymysg economïau datblygedig (ar ôl Japan, Gwlad Groeg, yr Eidal, Ffrainc a'r Unol Daleithiau).⁸⁰

Llog ar ddyledion

Mae taliadau llog dyledion yn elfen gynyddol bwysig o'r sefyllfa gyllidol mewn llawer o wledydd datblygedig gan gynnwys y DU, fel y dangosir yn **Ffigur 39**. Mae cyfuniad o ffactorau wedi cynyddu'n sylweddol y swm y mae'r sector cyhoeddus yn ei dalu mewn llog dyledion bob blwyddyn mewn gwledydd datblygedig. Ochr yn ochr â'r cynnydd yn nyled net sector cyhoeddus y DU, a nodir yn yr adran uchod, mae Llywodraeth y DU a llywodraethau ledled y byd wedi wynebu cyfraddau llog uwch ar fenthycia o'r newydd, offerynnau dyled cyfradd amrywiadwy ac ailgyllido dyled bresennol. Mae Llywodraeth y DU nawr yn wynebu'r trydydd lefel costau benthyca uchaf o unrhyw economi ddatblygedig ar ôl Seland Newydd a Gwlad yr Iâ.⁸¹

Ffigur 39: Llog llywodraeth ganolog y DU ar ddyledion (net o'r Cyfleuster Prynu Asedau) fel canran o GDP, 1948-2029



Sylwch: Cyflwynir ffigurau llog dyledion yn net o log ar y Cyfleuster Prynu Asedau, dyled y Llywodraeth gan Fanc Lloegr yn bennaf, rhan o'r sector cyhoeddus, felly nid yw'r llog sy'n cael ei dalu gan y llywodraeth ganolog ar y giltiau hynny'n gadael y sector cyhoeddus mewn gwirionedd.

Ffynhonnell: [OBR Public Finances Databank](#)

Yn 2022 a 2023 cynyddodd Banc Lloegr a banciau canolog eraill gyfraddau polisi i fynd i'r afael ag unrhyw ymchwydd mewn chwyddiant, gan gynyddu cost benthyca i unigolion, busnesau a llywodraethau. Mae tua 25% o ddyled Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â mynegai, cyfran uwch na'r rhan fwyaf o economïau mawr eraill, sy'n golygu bod cysylltiad agosach rhwng costau llog dyledion y DU a chwyddiant. Mae ansefydlogrwydd y farchnad, sy'n cael ei sbarduno gan ddigwyddiadau fel rhyfeloedd

⁸⁰ Gweler OBR (2025:t.3) [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - Fiscal risks and sustainability](#)

⁸¹ Gweler OBR (2025:t.3) [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - Fiscal risks and sustainability](#)

yn Wcráin a'r Dwyrain Canol a newidiadau yng nghyfansoddiad deiliaid bondiau'r llywodraeth hefyd wedi cynyddu cyfraddau llog ar fenthyciadau'r llywodraeth.

O ganlyniad, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol yn rhagweld y bydd taliadau llog dyledion y DU yn £111.2 biliwn ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Erbyn hyn, rhagwelir mai llog ar ddyledion fydd un o feysydd gwariant mwyaf y llywodraeth, gan gyfrif am oddeutu 8.3% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus, sy'n uwch na holl wariant Llywodraeth y DU ar Amddiffyn a Thrafnidiaeth ac yn uwch na chyfanswm y derbyniadau o'r dreth gorfforaeth. Mae taliadau llog dyledion y DU yn cyfateb i 3.7% o gynnyrch domestig gros.⁸² Er bod hyn yn is na'r lefel uchaf ers yr ail ryfel byd, sef 4.3% o'r cynnyrch domestig gros yn 2022-23, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd y gymhareb yn cynyddu dros y pum mlynedd nesaf.

Mae pob punt sy'n cael ei gwario ar log dyledion yn arian nad yw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, buddsoddiadau na gostyngiadau treth. Mae cynnydd mewn costau llog dyledion ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i'w rheolau cyllidol yn gwneud cyfnewidiadau yng nghyllidebau'r llywodraeth yn fwy difrifol.

Nid y DU yw'r unig wlad sy'n wynebu'r heriau hyn gan fod yr Unol Daleithiau, Ardal yr Ewro a Japan hefyd wedi gweld cynnydd mewn taliadau llog ar ddyledion. Yn 2024, parhaodd y gymhareb taliadau llog gros i gynnyrch domestig gros i godi yn yr OECD, gan gyrraedd 3.3%, i fyny o 3.0% yn 2023 a 2.7% yn 2015-19.⁸³

Mae costau uwch o ran talu dyledion yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y llwybrau cyllidol presennol. Os bydd benthyca'n parhau ar lefelau uchel, neu fod cyfraddau llog yn aros yn uwch, gallai cyfran refeniw'r llywodraeth a neilltuir i log dyledion fynd yn anghynaliadwy.⁸⁴ Mae perygl hefyd y bydd y taliadau llog uwch ar ddyledion yn lleihau gallu llywodraethau i ymateb i siociau economaidd yn y dyfodol gydag ysgogiad ariannol neu wariant brys. Byddai twf economaidd uwch (enwol neu mewn termau real) yn helpu llywodraeth i ddelio â'i chynaliadwyedd o ran dyledion.

Rheolau Cyllidol

Mae rheolau cyllidol Llywodraeth y DU yn mynnu bod gwarged yn y gyllideb bresennol erbyn 2029-30 a bod rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus yn gostwng fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros yn yr un flwyddyn.

⁸² Gweler y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol [Debt interest \(central government, net of APF\)](#)

⁸³ Gweler OECD (2025), *Global Debt Report 2025: Financing Growth in a Challenging Debt Market Environment*, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/8ee42b13-en>.


⁸⁴ Mae'r ffordd rifyddol neu glasurol o edrych ar gynaliadwyedd dyled llywodraeth yn defnyddio'r berthynas rhwng y gyfradd llog ar ddyled gyhoeddus (r) a chyfradd twf yr economi (g). Pan fo'r gyfradd llog yn is na'r gyfradd twf ($r < g$), mae'r economi'n ehangu'n gyflymach na'r gost o dalu'r ddyled, gan ganiatáu i'r gymhareb dyled-i-GDP ddirywio hyd yn oed os mai diffyg cymedrol sydd gan y llywodraeth. Mae'r senario hwn yn cefnogi lefelau dyled cynaliadwy. Ar y llaw arall, os yw'r gyfradd llog yn fwy na'r gyfradd dwf ($r > g$), mae dyled yn cronni'n gyflymach na'r allbwn economaidd, sy'n golygu bod angen gwargedion cyllidol i sefydlogi neu leihau cymhareb y ddyled.

Y diffyg yn y gyllideb gyfredol yw'r gwahaniaeth rhwng gwariant y llywodraeth o ddydd i ddydd a'i refeniw. Nid yw'r diffyg yn y gyllideb gyfredol yn cynnwys gwariant buddsoddi, yn wahanol i'r diffyg cyffredinol yn y gyllideb. Felly, ystyrir bod y diffyg yn y gyllideb gyfredol yn mesur y gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae trethdalwyr yn ei gynhyrchu a chost talu am wasanaethau cyhoeddus.

Rhwng 2001-02 a 2023-24, dim ond mewn dwy flynedd (2001-02 a 2018-19) y mae gwarged wedi bod yng nghyllideb gyfredol y DU, gweler Ffigur 40. Mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos bod benthyca, er ei fod yn dal yn bositif, yn gostwng dros weddill y degawd hwn ac y bydd gwarged yn y gyllideb gyfredol yn 2027-28, cyn y rheol cyllidol yn 2029-30. Disgwylir i'r diffyg presennol yn y gyllideb fod yn uwch, neu'n llai positif, ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg o'i gymharu â mis Hydref 2024. Mae £5.2 biliwn yn uwch yn 2024-25 a £10.0 biliwn yn uwch yn 2025-26. Bydd wedyn yn ddi-newid erbyn 2029-30, gan fodloni'r rhagolwg o'r un swm, neu 'hyblygrwydd', sef £9.9 biliwn fel y rhagwelwyd ym mis Hydref, gyda rhywfaint o gyfuno cyllidol yn digwydd ym mis Mawrth i wrthbwysu'r rhagolwg cyllidol gwannach i gynnal y lefel hon o hyblygrwydd.

Felly, dim ond o drwch blewyn y mae'r rheol i gael gwarged yn y gyllideb gyfredol erbyn 2029-30 yn cael ei bodloni. Mae'r mandad cyllidol yn cael ei fodloni o swm o 0.3% o'r cynnyrch domestig gros (£9.9 biliwn) yn 2029-30, sy'n cyfateb i tua 0.7% o refeniw trethi. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn asesu mai 54% yw'r tebygolrwydd y bydd y targed yn cael ei fodloni. Felly, gallai hyd yn oed newidiadau annisgwyl cymharol fach mewn amcangyfrifon refeniw, neu wariant, ddileu'r gwarged a ragwelir. Mae llawer o bwysau hefyd i gynyddu adnoddau neu wariant o ddydd i ddydd. Ond mae hyn yn llawer llai tebygol o gael ei ariannu drwy fenthyca o ystyried y rheolau cyllidol presennol.

Ffigur 40: Diffyg yn y gyllideb gyfredol, 2001-02 i 2029-30



Ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Fel y nodwyd yn gynharach, mae cynhyrchiant yn hanfodol ar gyfer rhagolygon cyllidol unrhyw economi, gan bennu cryfder sylfaen refeniw llywodraeth a chost darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Tybiaethau ynghylch twf cynhyrchiant y DU yw yn un o agweddau mwyaf ansicr, heriol ond canlyniadol rhagolygon cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Y tybiaethau ynghylch twf cynhyrchiant yw'r sail i asesu twf yr economi yn y tymor canolig i'r tymor-hir a newidynnau cyllidol pwysig eraill.

Mae asesiad gor-optimistaidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r adferiad mewn cynhyrchiant ar ôl yr argyfwng ariannol ddechrau'r 2010au yn golygu ei fod wedi goramcangyfrif twf economaidd y DU o rhwng 0.3 a 0.7 pwynt canran ar gyfartaledd dros ei gyfnodau o ddwy flynedd a phum mlynedd; ychydig yn uwch na'r rhagolygon allanol.⁸⁵ O ganlyniad, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol eisoes wedi diwygio ei disgwyliadau ynghylch cynhyrchiant ac felly twf cynnyrch domestig gros dros y tymor canolig yn 2017 o tua 0.5 pwynt canran.⁸⁶ Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl y diwygiad hwn am i lawr, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch un o agweddau mwyaf dylanwadol rhagolwg cyllidol ac economaidd y DU, gyda risgiau o anfanteision sylweddol yn parhau.⁸⁷

⁸⁵ Gweler y [Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(Gorffennaf 2025\) - Forecast evaluation report](#)

⁸⁶ Gweler [Productivity growth in the long-term - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

⁸⁷ Gweler FT (17 Chwefror 2025) 'Out on a limb': UK fiscal watchdog's productivity forecasts under fire, FT (24 June 2025) BoE's Andrew Bailey warns on UK productivity in challenge to Rachel Reeves a FT (11 Medi 2025) [The 'educated guess' set to decide Keir Starmer's fiscal fate](#)

Mae'r adran gynhyrchiant (gweler uchod) yn rhoi manylion am rai o'r goblygiadau cyllidol pe bai cynhyrchiant y DU yn gwella. Fodd bynnag, yn hytrach na bod cynhyrchiant yn perfformio'n well na'r rhagolygon (nid yw hyn yn gwneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch unrhyw bolisiau posibl yn y dyfodol), senario mwy tebygol yw bod cynhyrchiant yn cael ei adolygu i lawr neu'n tanberfformio o'i gymharu â'r rhagolygon.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu senario gyda thwf cynhyrchiant o 0.3% y flwyddyn drwy gydol y rhagolwg (yn hytrach na 1.0% dros gyfnod y rhagolwg, gan gyrraedd 1.3% yn 2029-30).⁸⁸ Tybir bod cynhyrchiant is yn lleihau'r cynnyrch domestig gros enwol a chyflogau. O ganlyniad, rhagwelir y bydd derbyniadau'n is, mae gwariant yn uwch sy'n gweithredu gyda'i gilydd i gynyddu'r gyllideb bresennol o'r swm a ragwelir ar hyn o bryd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y gyllideb gyfredol mewn diffyg dros holl gyfnod y rhagolwg hyd at 2029-30. Mae'r diffyg presennol yn cynyddu i £48.4 biliwn yn 2029-30. Mae hyn yn symudiad o £58.3bn o'r hyblygrwydd gwreiddiol o £9.9bn (gwarged) yn y rhagolwg canolog. Mae hyn i gyd yn cael ei achosi gan ostyngiad o tua un pwynt canran yn y duedd cynhyrchiant dros gyfnod y rhagolwg. Felly, mae twf cynhyrchiant y DU, a thybiaethau ynghylch sut y gallai dyfu yn y dyfodol, yn hanfodol ar gyfer rhagolygon economaidd ac ariannol y DU

Trethu


Mae'r cyfuniad o'r rheolau cyllidol a'r pwysau ar wariant cyhoeddus yn golygu bod mwy o bwyslais yn awr ar drethiant i ariannu mwy o wariant, yn enwedig ar gyfer y gyllideb o ddydd i ddydd neu'r gyllideb adnoddau.

Amcangyfrifir bod treth y DU yn 35.5% o'r GDP yn 2023-24, ac er yn is na 2022-23 ar 35.9% o'r cynnyrch domestig gros, mae'n dal yn gymharol uchel a dechrau'r 1950au oedd yr unig adeg y cyfrifodd am ganran uwch o'r cynnyrch domestig gros. Dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd hyn yn codi i 37.7% yn 2027-28 ac yna'n gostwng ychydig i 37.5% erbyn diwedd cyfnod rhagolwg 2029-30. Byddai hyn wedyn yn golygu bod treth fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros ar ei chyfran uchaf ers yr ail ryfel byd. Mae hyn tua'r un fath â'r rhagolwg ym mis Hydref 2024, er ei fod 0.1 pwynt canran yn uwch bryd hynny.

Er bod treth y DU fel cyfran o gynnyrch domestig gros yn uchel yn ôl safonau hanesyddol, mae tua'r un faint â safonau rhwngwladol yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r mesurau diweddar. Daw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r casgliad hefyd bod treth wedi bod yn codi fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros ar draws economïau datblygedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

⁸⁸ Gweler y [Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(Mawrth 2025\) a Economic and fiscal outlook](#)

Ffigur 41: Trethi fel cyfran o gynnyrch domestig gros, 1948-49 i 2029-30



Noder: nid yw echelin yn cychwyn ar sero

Ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Amcangyfrifir bod y cynnydd yn nhrethi'r DU fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros dros gyfnod y rhagolwg yn deillio o drethi personol (a achoswyd gan gymysgedd o enillion cynyddol gyda lwfansau a throthwyon Yswiriant Gwladol a threth incwm wedi'u rhewi) drwy'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a threthi cyfalaf (a achosir gan gynnydd mewn prisiau ecwiti ac eiddo, yn ogystal â pholisïau Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2024).

Mae trothwyon treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr wedi eu rhewi ers 2021, ac mae disgwyl i hynny barhau tan fis Ebrill 2028. Gallai Cyllideb yr hydref hwn ymestyn y cyfnod hwn o rewi hyd ddiwedd y degawd os bydd yn rhaid i'r Canghellor, fel y mae arbenigwyr cyllidol yn ei ddisgwyl ar hyn o bryd,⁸⁹ godi mwy o refeniw treth er mwyn cyrraedd prif darged cyllidol Llywodraeth y DU. Y prif drethi yn y DU yw treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr cyflogedig, treth ar werth a threth gorfforaeth. O'r £1,100bn o dderbyniadau treth a refeniw'r DU i'r llywodraeth, mae'r trethi hyn yn cyfateb i bron i ddwy ran o dair o'r cyfanswm. Daw 7% arall o'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig sy'n ariannu llywodraeth leol a gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o drethi eraill yn codi llai na £10bn y flwyddyn: yr

⁸⁹ Gweler er enghraifft [Rachel Reeves must raise taxes to cover £41bn gap, says think tank - BBC News](#) a [Politics Home | There Could be "Significant" Tax Rises At The Next Budget, Says Leading Economist](#)

unig eithriadau yw'r dreth ar danwydd - £25bn, treth dir y dreth stamp - £12bn a'r dreth enillion cyfalaf - £14bn.


Setliad a chyllid Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Adolygiad o Wariant (SR) Mehefin 2025 Llywodraeth y DU setliad grant bloc adnoddau i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 i 2028-29 a setliad cyfalaf ar gyfer 2026-27 i 2029-30. Mae'r setliad grant bloc cyffredinol ar gyfer y cyfnod yn 2025-26 i 2028-29 dros £6bn yn uwch na'r disgwyl, ar sail twf yng ngwariant cyhoeddus dewisol y DU a dybir yng Nghyllideb y DU ym mis Mawrth 2024.

Yn ogystal â'r grant bloc, mae maint cyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar refeniw o ardrethi annomestig, y trethi datganoledig, a'r addasiadau i'r grant bloc sy'n cyd-fynd â'r trethi hynny. At ei gilydd, mae'r grant bloc yn cyfrif am 79% o'r gyllideb yn 2026-27 (ar ôl didynnu'r addasiadau i'r grant bloc). Mae'r trethi datganoledig yn ariannu 15% ac ardrethi annomestig a benthyca cyfalaf sydd i'w gyfrif am y gweddill (gweler **Ffigur 42**).

Mae dadansoddiad dosbarthiadol ar wahân yn dangos effaith rhaglenni gwario adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2026-27 ar draws y dosbarthiad incwm yn cael ei gyhoeddi ar wahân ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Ffigur 42: Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru

Disgwylir i gyfanswm y gyllideb adnoddau ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr holl elfennau a restrir uchod, gynyddu 1.6% mewn termau real yn 2026-27 a chynyddu o'r un swm ar gyfartaledd bob blwyddyn dros y blynyddoedd 2024-25 i 2028-29. Mae'r gyllideb adnoddau'n dilyn trywydd tebyg i'r hyn a ddisgwylir o dan y cynlluniau adnoddau a nodwyd ym mis Mawrth 2024 gan Lywodraeth flaenorol y DU, ond o sylfaen sylweddol uwch yn 2025-26 (**Ffigur 43**).

Ffigur 43: Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real



Noder: nid yw echelin yn cychwyn ar sero

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Mae **Ffigur 44** yn cymharu'r gyfradd twf real o 1.6% yn y gyllideb adnoddau a ddisgwylir dros y cyfnod 2024-25 i 2028-29 â chyfnodau cynharach. Mae'n sylweddol uwch nag yn ystod y cyfnod o gynydd yn y 2010au, ond yn is nag ar adegau eraill ac yn llawer is nag yn ystod y cyfnod cychwynol ar ôl datganoli ddechrau'r 2000au. Dros gyfnod Adolygiad Gwariant 2015, cynyddodd y twf enwol mewn gwariant o 0.7% i 2.4% y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd hyn yn ddigon i gynnal y setliad mewn termau real dros y cyfnod yn hytrach na gostwng 1.1% y flwyddyn, fel yn y cynllun gwreiddiol. Roedd cynnydd mawr yn y setliad enwol dros gyfnod Adolygiad Gwariant 2021, o'r gyfradd twf gyfartalog wreiddiol o 5.4% y flwyddyn i 9.1% y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd y sioc chwyddiant fawr dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant, roedd

y cynnydd enwol mawr hwn ond yn cynnal y gyfradd twf wirioneddol a gynlluniwyd, sef tua 3% y flwyddyn.

O ystyried y profiad blaenorol dros setliadau Adolygiad Gwariant amlflwyddyn, mae'n bosibl iawn y bydd Llywodraeth Cymru'n cael cyllid ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf (**Ffigur 45**). Fodd bynnag, mae'n ddoeth cynllunio ar sail y cyllid a ddarparwyd yn setliad yr Adolygiad Gwariant diweddar.


Gan dybio y byddwn yn cyd-fynd â'r setliad hwn dros y cyfnod, gellir amlinellu'r sefyllfa ar gyfer cyllidebau posibl Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Pe bai setliadau adnoddau iechyd a llywodraeth leol yn 2027-28 a 2028-29 yn cynyddu'n unol â chyfraddau twf cyfartalog ers 2019-20 (3.6% ac 1.7% o dwf blynyddol real yn y drefn honno) - yna byddai'n rhaid i weddill cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ostwng 6% y flwyddyn mewn termau real dros y ddwy flynedd hynny. Fel arall, er mwyn i bob cyllideb ac eithrio iechyd a llywodraeth leol gynnyddu yn ôl chwyddiant, felly dim twf mewn termau real, yna byddai'r setliadau ar gyfer iechyd a llywodraeth leol yn cynyddu ar lai na hanner y gyfradd gyfartalog a welwyd ers 2019-20.

Ffigur 44: Cyfraddau twf real o un flwyddyn i'r llall yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur 45: Cyfraddau twf blynyddol cyfartalog yr adolygiad gwariant




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru

Mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol 2.2% yn uwch mewn termau real yn 2026-27 nag yr oedd yn 2025-26, a 8.6% yn uwch na'r alldro ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, disgwylir iddo ostwng 11% mewn termau real rhwng 2026-27 a 2029-30. Mae'r gyllideb ddisgwyliedig a ddangosir yn **Ffigur 46** yn tybio bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio ei therfyn benthyca cyfalaf blynyddol llawn o £150m. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddem yn cyrraedd terfyn cyffredinol cyfanswm y sioc o £1bn yn 2028-29, gan egluro rhywfaint o'r gostyngiad a ragwelir yn y gyllideb yn 2029-30. Byddai proffil gwahanol o fenthycia yn arwain at lwybr ychydig yn wahanol ar gyfer y gyllideb gyfalaf gyffredinol.

Mae'r cynnydd cymharol fawr mewn cyfalaf yn 2025-26 ac yn 2026-27 yn cadw'r gyllideb yn llawer uwch na'r disgwyl yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfalaf cyffredinol y DU a gyhoeddwyd yng nghyllideb Llywodraeth flaenorol y DU ym mis Mawrth 2024.

Ffigur 46: Cyllideb Cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn termau real, £m



Noder: nid yw echelin yn cychwyn ar sero
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Trethi datganoledig

Mae ffigurau rhagamcanol y gyllideb adnoddau uchod yn cynnwys yr effaith net a ragwelir ar refeniw trethi datganoledig. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y rhagolygon hynny. Roedd [Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer mis Mawrth 2025](#) yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi cyfatebol y DU sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Mae amcanestyniadau'r gyllideb adnoddau a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cynnwys rhagolygon mis Mawrth ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru ac ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc ochr yn ochr â rhagolygon wedi'u diweddarau ar gyfer y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r alldro diweddaraf. Mae cyfansymiau refeniw 2026-27 hefyd yn cynnwys symiau cysoni gan ystyried yr alldro ar gyfer treth incwm yn 2023-24 a'r addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn 2024-25. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghrynodeb y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o Ragolygon Trethi Cymru a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos twf cryf mewn refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru (gweler **Ffigur 47**). Dros flynyddoedd yr alldro rhwng 2019-20 a 2023-24, cynyddodd refeniw cyfraddau treth incwm Cymru 10% y flwyddyn ar gyfartaledd,

a rhagwelir y bydd yn parhau i dyfu 6% y flwyddyn ar gyfartaledd dros weddill y ddegawd bresennol. Disgwylir i refeniw treth trafodiadau tir barhau i adfer o lefel gymharol isel yn 2023-24 a thyfu'n gryf drwy weddill y cyfnod a ragwelir. Yn eu crynswth, disgwylir i drethi datganoledig ddyblu mewn termau nominal rhwng 2019-20 a 2029-30, gan gynyddu o tua £2bn.

Ffigur 47: Refeniw trethi datganoledig (£ miliwn)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi cyfatebol y DU hefyd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiadau i'r grant bloc.

Dangosir effaith gyllidebol net trethiant datganoledig, gan gynnwys addasiadau i'r grant bloc a'r rhagolygon treth a ddefnyddir mewn cyllidebau yn **Ffigur 48**. Mae'r sefyllfa net hefyd yn cynnwys effaith symiau cysoni mewn perthynas â gwallau yn y rhagolygon mewn blynyddoedd blaenorol. Mae rhagor o fanylion am y symiau hyn yn Atodiad A i Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r trethi datganoledig barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol at gyllideb Llywodraeth Cymru, gyda sefyllfa net flynyddol o tua £400m neu fwy o 2026-27 hyd at ddiwedd cyfnod y rhagolwg.

Mae'r sefyllfa net ddisgwyliedig yn codi'n sydyn yn 2026-27 o'i gymharu â 2025-26. Mae hyn yn cael ei sbarduno gan welliannau net a ragwelir i gyfraddau treth incwm Cymru o'i gymharu â rhagolwg mis Hydref 2024 a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllideb 2025-26. Mae swm cysoni uwch hefyd yn 2026-27.

Ffigur 48: Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc (£ miliwn)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Bydd addasiad grant bloc cyfraddau treth incwm Cymru a rhagolwg refeniw cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2026-27 yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn hydref 2025. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru. Bydd yr alldro ar gyfer 2026-27 yn cael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2028 a bydd unrhyw symiau cysoni yn sgil hynny'n cael eu rhoi ar waith yn 2029-30. Caiff addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn 2025-27 eu diwygio yn dilyn rhagolwg yr hydref y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Cyhoeddwyd canllaw cyflym⁹⁰ sy'n dangos effaith newid cyfraddau treth incwm Cymru ar refeniw ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26. Bydd hyn hefyd yn cael ei ddiweddarau ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr 2026 gan ddefnyddio rhagolwg Hydref y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

⁹⁰ Gweler [Canllaw cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

Senarios ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol

Mae'r amcanestyniadau tymor hirach yn **Ffigur 49** yn defnyddio'r rhagolwg tymor canolig a ddangosir yn **Ffigur 43** fel man cychwyn. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2029-30 i 2035-36.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant yr OBR

- Ar sail amcanestyniadau llinell sylfaen y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'i hadroddiad Risgiau Cyllidol a Chynaliadwyedd 2024, mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i gyllid grant bloc yn tyfu'n gyflymach na chynnyrch domestig gros drwy gydol cyfnod ei amcanestyniad. Heb fewnfudo, mae'r senario hwn yn arwain yn y pen draw at gynnydd cyflym yn nyled net y sector cyhoeddus.

Senario dau: Mae gwariant yn cynyddu law yn llaw â chynnyrch domestig gros

- Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i arian grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu ar yr un gyfradd ag economi'r DU. Mae'r senario hwn yn adlewyrchu sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU yn fodlon cynnal y sefyllfa gyllidol yn fras ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg tymor canolig presennol.


Senario tri: Twf o un pwynt canran yn llai na chynnyrch domestig gros

- Mae gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn cynyddu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU. Mae hyn yn adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau neu log ar ddyledion – yn cynyddu'n gyflymach.

Bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru'n tyfu ar gyfradd debyg i'r hyn a welwyd yn ystod y 2000au yn ôl senario gwariant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Y senario hwn sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol ond, ac ystyried casgliad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd hyn yn arwain at dwf esbonyddol yn nyled net y sector cyhoeddus heb godi trethi, efallai nad dyma fydd y senario mwyaf tebygol.

Mae'r senario canol yn awgrymu y bydd y gyllideb adnoddau yn tyfu ychydig yn gyflymach dros gyfnod adolygu gwariant 2025, ac yn y senario isaf mae parhad o'r twf hwnnw dros y tymor hirach.

Ffigur 49: Amcanestyniadau hirdymor ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd (cyllideb adnoddau heb gynnwys COVID-19) mewn termau real, £m, prisiau 2023-24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cynaliadwyedd cyllidol hirdymor

O ystyried bod y grant bloc yn dominyddu cyllideb Llywodraeth Cymru, bydd cynaliadwyedd y gyllideb i ddiwallu anghenion gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn dibynnu'n helaeth ar benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. Os caiff y gwasanaethau cyfatebol yn Lloegr eu hariannu'n ddigonol, yna bydd digonolrwydd cyllid yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar a yw'r galw am y gwasanaethau hynny'n tyfu ar gyfradd wahanol i'r galw yn Lloegr. Bydd perfformiad cymharol y trethi datganoledig yn cael llai o effaith, ond bydd yn effaith bwysig yma o hyd.


Mae maint a strwythur demograffig y boblogaeth yn ffactor pwysig sy'n sbarduno'r galw am wasanaethau cyhoeddus gan y bydd anghenion unigolion a'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn amrywio yn ystod eu hoes. Dangoswyd hyn yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru'r llynedd.⁹¹

Mae [amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru](#) yn parhau i awgrymu cynnydd yn y boblogaeth dros y cyfnod hyd 2060

⁹¹ Gweler ffigur 43 [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024](#)

o'i gymharu â chynnod sylfaen 2024⁹², gweler **Ffigur 50**. Mae'r proffil demograffig yr un mor bwysig, o ystyried yr angen amrywiol am wasanaethau cyhoeddus yn ôl oedran. Mae **Ffigur 50** yn dangos mai'r rheini sy'n 65 oed a hŷn fydd yn sbarduno'r cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru, yn debyg i'r amcanestyniadau blaenorol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn debygol o dyfu'n gyflymach, gan eu bod 45% yn fwy yn 2060 nag yn 2024, o'i gymharu ag oddeutu 10% ar gyfer cyfanswm twf y boblogaeth dros y cyfnod hwnnw. I'r gwrthwyneb, rhagwelir y bydd gostyngiad yn y rheini yn y grŵp oedran 0 i 15 oed, ond ar raddfa ychydig yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan ostwng tua 13% erbyn y 2040au o'i gymharu â sefyllfa 2024 ac yna gostwng 17% erbyn 2060 o'i gymharu â sefyllfa 2024. O ganlyniad, bydd y boblogaeth oedran gweithio (16 i 64 oed) yn gostwng ychydig yn gynt (o'r 2050au ymlaen) ac yn gyflymach nag amcanestyniadau blaenorol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd poblogaeth oedran gweithio Cymru yn tyfu tan y 2050au.

Ffigur 50: Amcanestyniadau poblogaeth Cymru 2022 (2024=100), yn ôl oedran



Ffynhonnell: [National population projections, y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Gall cynnydd yn y nifer sy'n heneiddio'n iach helpu i wrthbwyso'n rhannol effaith negyddol heriau demograffig, gyda phobl yn byw'n hirach a hefyd mewn gwell iechyd wrth heneiddio, sy'n gallu helpu i hwyluso bywydau gwaith hirach a mwy cynhyrchiol.

⁹² Y cynnod sylfaen yw amcangyfrifon poblogaeth canol 2024 ar gyfer Cymru, sydd ar gael o [Population estimates for England and Wales - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Er enghraifft, mae data ymchwil diweddar gan yr IMF o sampl o 41 o economïau marchnad datblygedig a newydd yn dangos, ‘... *ar gyfartaledd, bod gan berson a oedd yn 70 oed yn 2022 yr un gallu gwybyddol â pherson 53 oed yn 2000.*⁹³ Gall cyflymder y gwelliant hwn mewn galluoedd gwybyddol helpu i gynyddu'r tebygolrwydd o gymryd rhan yn yr ymgysylltu â'r farchnad lafur, fodd bynnag, mae'r effaith hon yn cael ei chymedroli gan wahaniaethau iechyd presennol o fewn gwledydd. Er enghraifft, canfu ymchwil yr IMF hefyd fod sgoriau iechyd cyfartalog yn sylweddol is ar gyfer unigolion mewn lleoliadau gwledig, unigolion sydd wedi cael addysg sylfaenol iawn, ac aelwydydd â llai o fodd.


I Lywodraeth Cymru, yr allwedd i reoli newidiadau demograffig yng Nghymru a'r goblygiadau cyllidol yw sut mae'r boblogaeth yn newid o'i chymharu â Lloegr, oherwydd y ffordd mae cyllid Llywodraeth Cymru'n gweithio. Mae **Ffigur 51** yn dangos pob un o'r grwpiau oedran hyn ond y tro hwn fel cyfran o Loegr, i ddangos y newidiadau yng Nghymru mewn cymhariaeth â Lloegr. Byddai unrhyw gynnydd sylweddol yn awgrymu y gallai pwysau demograffig ychwanegol fod ar Gymru sydd y tu hwnt i'r pwysau yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru gyfran gymharol uwch o'r boblogaeth 65 oed a hŷn (mae hyn yn uwch na chyfanswm cyfran y boblogaeth ar gyfer Cymru), a chyfran ychydig yn is o'r boblogaeth 0 i 15 oed nag sydd yn Lloegr. Dros amser, rhagwelir y bydd yr holl brif grwpiau oedran yn gostwng o'u cymharu â Lloegr. Mae hyn yn awgrymu nad oes disgwyl i'r pwysau demograffig newidiol y mae Cymru'n eu hwynebu fod ddim gwaeth na'r rheini yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar nifer o dybiaethau ansicr.

Bydd proffil demograffig newidiol i Gymru yn dal i arwain at heriau a bydd angen rheoli rhywfaint ar y trawsnewidiadau a lleddfu'r pwysau sy'n newid ar draws cyllidebau ac o fewn iddynt. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r newidiadau sy'n wynebu Cymru yn sgil materion sy'n ymwneud ag oedran yn unig fod yn waeth na'r rhai a wynebir yn Lloegr. Dim ond un dimensiwn yw hwn ar gyfer rhagweld y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Fodd bynnag, gall llawer o ffactorau eraill hefyd sbarduno ac effeithio ar y galw am wasanaethau cyhoeddus.

⁹³ [Pennod 2: The Rise of the Silver Economy: Global Implications of Population Aging, y Gronfa Ariannol Ryngwladol \(IMF\), Adran Ymchwil, 22 Ebrill 2025](#)

Ffigur 51: Cyfran poblogaeth Cymru o'i chymharu â Lloegr yn ôl grŵp oedran, 2025 i 2060




Sylwch: Nid yw'r siart yn cychwyn ar sero

Ffynhonnell: [National population projections, y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Fel y dangosir yn **Ffigur 50**, disgwylir i'r cynnydd yn y boblogaeth hŷn fod yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r galw cynyddol am wariant ar wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na Lloegr – sy'n rhan o'r rheswm dros yr angen cymharol uwch iddi wario ar wasanaethau cyhoeddus – ond y twf yn y boblogaeth honno sy'n debygol o sbarduno newidiadau yn y galw. Mae **Ffigur 52** yn dangos y rhagolwg o'r twf yn y boblogaeth sydd â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill – grŵp sy'n debygol o greu rhywfaint o'r galw mwyaf am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r boblogaeth hon dyfu'n gyflym ond ar tua'r un gyfradd yng Nghymru ac yn Lloegr tan ddiwedd y 2030au, a bydd twf ychydig yn gyflymach yn Lloegr wedi hynny. Ar sail y rhagamcanion hyn, ni ddylai'r ysgogiad demograffig ar gyfer cynyddu gwariant ar wasanaethau cyhoeddus i bobl hŷn yng Nghymru ychwaith fod yn fwy nag yn Lloegr.

Ffigur 52: Rhagolwg o'r boblogaeth â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill (Mynegai 2022 = 100)



Sylwch: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu heriau cyllidol difrifol, gyda mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus a lefelau uwch o anghenion o'i gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, nid oes yn dal dim yn yr amcanestyniadau poblogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i awgrymu y bydd y twf yn y galw am wasanaethau'n wahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.